

HYFFORDWR

YR

THOMAS
CHARLES

PENUEL
CAERFYRDDIN



HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#1

Pwy a'n gwnaeth ni?

Salm 100:3
Gen. 1:26-27
Acts 4:24.

Duw: "Ef a'n gwnaeth, a'i eiddo ef ydym, ei bobl a defaid ei borfa."

.....

.....

.....

#2

Beth yw Duw?

Ioan 4:24

"Ysbryd yw Duw."

.....

.....

.....

#3

Oes mwy nag un Duw?

Deuteronomium 6:4
1 Timotheus 2:5
1 Corinthiaid 8:4, 6

Un Duw sydd: "Gwranddo, O Israel: Y mae'r ARGLWYDD ein Duw yn un ARGLWYDD."

.....

.....

.....

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#4

Oes mwy nag un person yn y Duwdod?

Mathew 28:19
2 Cor. 13:13.

Mae tri pherson yn y Duwdod,
y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân.

#5

Ydy pob un o'r personau hyn yn wir
Dduw?

Ydynt; mor dragwyddol ac uchel a'i gilydd.

#6

Mae hwn yn ddirgelwch mawr, onid yw?

Deut. 6:4
1 Tim. 2:5
1 Cor. 8:4, 6

Ydy; dirgelwch mawr i'w gredu, ac nid i'w
amgyffred: "A rhaid inni'n unfryd gyffesu
mai mawr yw dirgelwch ein crefydd."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#7

Beth yw'r gweithredoedd sy'n cael eu cyfrif yn fwyaf arbennig i'r personau yn y Duwdod?

1 Pedr 1:2;
1 Cor. 8:6; Gal. 3:13;
2 Thes. 2:13.

Creu ac Ethol i'r Tad; Prynu ac Eiriol i'r Mab; a Sancteiddio i'r Ysbryd Glân:

#8

Ydy Duw'n hollalluog?

Mathew 19:26
Genesis 17:1

Ydy: "Gyda Duw y mae pob peth yn bosibl."

#9

Ydy Duw'n gwybod popeth?

Salm
139:2-4;
Heb. 4:13

Ydy: "Gwyddost ti pa bryd y byddaf yn eistedd ac yn codi; yr wyt wedi deall fy meddwl o bell; yr wyt wedi mesur fy ngherdded â'm gorffwys, ac yr wyt yn gyfarwydd â'm holl ffyrdd. Oherwydd nid oes air ar fy nhafod heb i ti, ARGLWYDD, ei wybod i gyd."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#10

Ydy Duw'n bresennol ym mhob man?

Salm
139:7-10

Ydy: "I ble yr af oddi wrth dy ysbryd? I ble y ffoaf o'th bresenoldeb? Os dringaf i'r nefoedd, yr wyt yno; os cyweiraf wely yn Sheol, yr wyt yno hefyd. Os cymeraf adenydd y wawr a thrigo ym mhellafoedd y môr, yno hefyd fe fydd dy law yn fy arwain, a'th ddeheulaw yn fy nghynnal."

.....

.....

#11

Ydy Duw'n dragwyddol?

Salm 90:2
1 Timotheus 1:17

Ydy; heb ddechreu na diwedd: "O dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb, ti sydd Dduw."

.....

.....

#12

Ydy Duw'n anghyfnewidiol?

Iago 1:17;
Malachi 3:6

Ydy: "Iddo ef ni pherthyn na chyfnewid na chysgod troadau'r rhod."

.....

.....



#13

Ydy Duw'n fawr?

Salm 145:3

Ydy: "Mae ei fawredd yn
anchwiliadwy."

.....

.....

.....

#14

Ydy Duw'n ddoeth?

Rhuf. 16:27;
Jwdas 25;
Rhuf. 11:33; Eff. 3:19

Ydy: Efe yw'r "unig ddoeth
Dduw"

.....

.....

.....

#15

Ydy Duw'n drugarog?

Salm 103:8, Salm 108:4,
Salm 86:15; Ex. 34:6; 2 Cr. 30:9;
Neh. 9:17, 31; Jona 4:2.

Ydy: "Trugarog a
graslon yw'r
ARGLWYDD."

.....

.....

.....



#16

Ydy Duw'n ffyddlon?

1 Cor. 1:9 a 10:13;
Heb. 6:18; Ioan 1:9;
Ex. 34. 6.

Ydy: "Mae Duw'n ffyddlon" ac mae'n "amhosibl i Dduw fod yn gelwyddog"

.....

.....

#17

Ydy Duw'n sanctaidd?

Hab. 1:13;
Es. 6:3.

Ydy; yn berffaith sanctaidd, ac yn casáu pechod: "Ti, sydd â'th lygaid yn rhy bur i edrych ar ddrwg, ac na elli oddef camwri."

.....

.....

#18

Ydy Duw'n gyfiawn?

Salm
145:17

Ydy; yn anfeidrol gyfiawn, ac yn cosbi pechod: "Y mae'r ARGLWYDD yn gyfiawn yn ei holl ffyrdd ac yn ffyddlon yn ei holl weithredoedd."

.....

.....



#19

Ydy Duw'n dda?

Salm 25:8
Salm 86:5.

Ydy, ym mhob peth: "Y mae'r ARGLWYDD yn dda ac uniawn. Yr wyt ti, Arglwydd, yn dda a maddeugar, ac yn llawn trugaredd i bawb sy'n galw arnat."

#20

Beth greodd Duw heblaw dyn?

Eseia 44:24;
Act. 14:15.

Creodd Duw bopeth yn y nefoedd a'r ddaear. "Myfi, yr ARGLWYDD, a wnaeth y cyfan - estyn y nefoedd fy hunan, a lledu'r ddaear heb neb gyda mi."

#21

O beth creodd Duw y pethau hyn?

Heb.
11:3

O ddim: "Trwy ffydd yr ydym yn deall i'r bydysawd gael ei lunio gan air Duw yn y fath fodd nes bod yr hyn sy'n weledig wedi tarddu o'r hyn nad yw'n weladwy."



#22

Pam creodd Duw y byd?

Col. 1:16;
Diar. 16:4

I amlygu ei ogoniant ei hun:
“Trwyddo ef ac er ei fwyn ef y
mae pob peth wedi ei greu.”

#23

Ydy Duw'n cynnal ac yn llywodraethu'r byd
a greodd?

Salm 103:19;
Col. 1:17.

Ydy; yn cynnal ac yn llywodraethu ar bopeth:
“Gosododd yr ARGLWYDD ei orsedd yn y
nefoedd, ac y mae ei frenhiniaeth ef yn rheoli
pob peth.”

#24

Mewn faint o amser creodd Duw y byd?

Ex. 20:11

Mewn chwe diwrnod

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#25

Beth wnaeth Duw ar y seithfed dydd?

Gen. 2:3

Gorffwys, a'i sancteiddio ef.

.....

.....

.....

#26

A ddylem ni wneud yr un fath?

Dylem, yn ôl esiampl a gorchymyn Duw.

.....

.....

.....

27

Pwy oedd y dyn cyntaf?

1 Cor.
15:45

Adda.'Dyna mae'r ysgrifau sanctaidd yn ei ddweud:
"Daeth y dyn cyntaf, Adda, yn berson byw" ond
mae'r Adda olaf, sef y Meseia, yn ysbyrd sy'n rhoi
bywyd i eraill.'

.....

.....

.....



#28

Pwy oedd y wraig gyntaf

Gen. 3:20

Efa. "Dyma'r dyn yn rhoi'r enw Efa i'w wraig, am mai hi fyddai mam pob person byw"

#29

Sawl rhan sydd mewn dyn?

Preg. 12:7

Dwy ran, sef corff ac enaid: "[Cofia Dduw] cyn i'r llwch fynd yn ôl i'r ddaear lle bu ar y cychwyn, a chyn i'r ysbryd ddychwelyd at y Duw a'i rhoes."

#30

O beth creodd Duw gorff dyn?

Gen. 2:7

O bridd y ddaear.



#31

Sut greodd Duw enaid dyn?

Gen.
2:7

“Dyma’r ARGLWYDD Dduw yn siapio dyn o’r pridd. Wedyn chwythodd i’w ffroenau yr anadl sy’n rhoi bywyd, a daeth y dyn yn berson byw.”

#32

O beth gwnaeth Duw Efa?

Genesis 2:21-22

O asen Adda tra roedd yn cysgu

#33

Ble gosododd Duw y dyn wedi ei greu?

Gen. 1:29, 30
Gen. 2:15.

Yng ngardd Eden, i’w llafurio ac i’w chadw, ac i arglwyddiaethu dros holl greaduriaid y byd hwn



#34

Ym mha gyflwr creodd Duw ddyn?

Gen. 1:27;
Eff. 4:24;
Col. 3:10.

Mewn cyflwr sanctaidd a dedwydd: "Felly creodd Duw ddyn ar ei ddelw ei hun; ar ddelw Duw y creodd ef; yn wryw ac yn fenyw y creodd hwy."

#35

A barhaodd dyn yn y cyflwr hwn?

Preg. 7:29
Salm 49:12

Naddo: "[Mae] Duw wedi creu pobl yn uniawn; ond y maent hwy wedi ceisio llawer o gynlluniau."

#36

I ba gyflwr y syrthiodd dyn?

Salm 51:5
Genesis 3:16-19
Genesis 6:5-12

I gyflwr pechadurus a thruenus: "Wele, mewn drygioni y'm ganwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam."



#37

Sut syrthiodd dyn?

Genesis 3:11

Trwy anufuddhau i orchymyn Duw

.....

.....

.....

#38

Beth oedd y gorchymyn a roddodd Duw iddo?

Genesis 2:17

I beidio â bwyta o ffrwyth pren gwybodaeth da a drwg.

.....

.....

.....

#39

Oedd angen ffrwyth y pren a waharddwyd ar y dyn?

Genesis 2:16

Nac oedd, oherwydd rhoddwyd y ffrwyth o bob coeden arall yn yr ardd iddo i fwyta.

.....

.....

.....

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#40

Pam gwaharddwyd hwn iddo?

I brofi ei ufudd-dod i ewyllys Duw.

#41

Pwy hudodd y dyn i anufuddhau i'r gorchymyn esmwyth hwn?

Genesis 3:11-13

Hudwyd y dyn gan y wraig, a'r wraig gan y sarff

#42

Beth oedd canlyniad ei anufudd-dod?

Gen. 2:17

Bu farw, a cholodd ddelw Duw - y ddelw y crewyd ef ynddo: "Ond ni chei fwyta o bren gwybodaeth da a drwg, oherwydd y dydd y bwytei ohono ef, byddi'n sicr o farw."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#43

Sut ydym i ddeall y farwolaeth hon?

Eff. 2:1;
Ioan 5:24.

(1.) Marwolaeth ysbrydol yr enaid, sef ei ymadawiad lwyr oddi wrth Dduw: "Bu adeg pan oeddech chwithau yn feirw yn eich camweddau a'ch pechodau."

#43

Hebreaidd
9:27

(2.) Marwolaeth naturiol, sef ysgariad y corff a'r enaid oddi wrth ei gilydd dros amser: "Gosodwyd i ddynion eu bod i farw un waith, a bod barn yn dilyn hynny."

#43

Rhuf. 6:23;
Mat. 25:46;
Dat. 21:8.

(3.) Marwolaeth dragwyddol, sef y cwbl mae corff ac enaid yn dioddef am bechod am byth: "Y mae pechod yn talu cyflog, sef marwolaeth." "Ac fe â'r rhain ymaith i gosb dragwyddol, ond y rhai cyfiawn i fywyd tragwyddol."



#44

Beth gollodd dyn?

Gen. 1:27

Delw Duw.

.....

.....

.....

#45

Beth yw ystyr “delw Duw”?

Effesiaid 4:24;
Colosiaid 3:10.

Gwybodaeth, cyfiawnder, a
gwir sancteiddrwydd.

.....

.....

.....

#46

Beth oedd pechod Adda i ni?

Rhufeiniaid 5:18

“Daeth collfarn ar y ddynolryw
i gyd trwy un weithred o
drosedd”

.....

.....

.....



#47

A fu farw pawb yn Adda?

1 Corinthiaid 15:22;
Rhufeiniaid 5:12

Do: "Y mae pawb yn marw yn Adda."

.....

.....

#48

A all berson achub ei hun o'r cyflwr truenus mae wedi syrthio iddo?

Mathew
19:25-26

Na all: "Pan glywodd y disgyblion hyn, synasant yn fawr ac meddent, 'Pwy felly all gael ei achub?' Edrychodd Iesu arnynt a dywedodd wrthynt, 'Gyda dynion y mae hyn yn amhosibl, ond gyda Duw y mae pob peth yn bosibl.'"

.....

.....

#49

Ydy Duw wedi ei ddigio gan bechod?

Rhuf. 1:18

Ydy, yn fawr iawn: "Y mae digofaint Duw yn cael ei ddatguddio o'r nef yn erbyn holl annuwioldeb ac anghyfiawnder pobl."

.....

.....

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#50

A all unrhywun roi'r iawn digonol mae
Duw'n ei ofyn?

Hebreaid 9:22

Ydy, heb iawn digonol: "Heb
dywallt gwaed nid oes
maddeuant."

.....

.....

#51

A all unrhywun roi'r iawn digonol mae
Duw'n ei ofyn?

Salm
49:7-8

Na all; er dioddef am byth yn uffern am ei bechod:
"Yn wir, ni all neb ei waredu ei hun na thalu iawn i
Dduw, oherwydd rhy uchel yw pris ei fywyd, ac ni
all byth ei

.....

.....

#52

A all unrhywun newid ei galon
bechadurus?

Jer. 13:23;
Salm 51:10

Na all; nid oes ganddo'r ewylllys na'r gallu i
ymadael â'i bechod: "A newidia'r Ethiopiad ei
groen, neu'r llewpard ei frychni? A allwch chwithau
wneud daioni, chwi a fagwyd mewn drygioni?"

.....

.....

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#53

A oes unrhywbeth mewn pobl sy'n haeddu achub gan Dduw?

Rhuf.
8:7

Nac oes, mwy na sydd mewn gelyn yn haeddu cariad: "Oherwydd y mae bod â'n bryd ar y cnawd yn elyniaeth tuag at Dduw."

#54

A fasai'n gyfiawn i'r Arglwydd adael pobl yn y cyflwr truenus hwn am byth?

Rhuf. 3:5,6
Rhuf. 9:14

Heb os, basai'n gyfiawn iddo ddamnio pechaduriaid am byth: "Beth a ddywedwn? Mai anghyfiawn yw'r Duw sy'n bwrw ei ddigofaint arnom? Ddim ar unrhyw gyfrif! Os nad yw Duw yn gyfiawn, sut y gall farnu'r byd?"

#55

A adawodd Duw y ddynoliaeth yn y cyflwr truenus mae wedi syrthio iddo trwy bechod?

Ioan 3:16;
Salm 136:23.

Naddo: "Carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#56

Pwy anfonodd Duw i achub y ddynoliaeth?

Rhuf. 8:3;
Gal. 4:4.

Ei Fab ei hun: "Yr hyn oedd y tu hwnt i allu'r Gyfraith, yn ei gwendid dan gyfyngiadau'r cnawd, y mae Duw wedi ei gyflawni. Wrth anfon ei Fab ei hun, mewn ffurf debyg i'n cnawd pechadurus ni, i ddelio â phechod, y mae wedi collfarnu pechod yn y cnawd."

#57

I bwy amlygodd Duw gyntaf ei fwriad i anfon Iesu Grist i'r byd?

Gen.
3:15

I'n rhieni cyntaf ar ôl y cwmp, gan hysbysu y byddai Had y wraig, sef Crist, yn ysigo pen y sarff oedd wedi'u twyllo hwyt: "Gosodaf elyniaeth hefyd rhyngot ti a'r wraig, a rhwng dy had di a'i had hithau; bydd ef yn ysigo dy ben di, a thithau'n ysigo'i sawdl ef."

#58

Pam mae Crist yn cael ei alw'n Had y wraig?

Hebreaid
2:14

(1.) Am fod Crist i gymryd arno natur dyn: "Felly, gan fod y plant yn cydgyfranogi o'r un cig a gwaed, y mae yntau, yr un modd, wedi cyfranogi o'r cig a gwaed hwnnw."



#58

Pam mae Crist yn cael ei alw'n Had y wraig?

Esa. 7:14;
Mat. 1:23.

(2.) Am ei fod i gael ei eni o wraig heb adnabod gŵr: "Wele ferch ifanc yn feichiog, a phan esgor ar fab, fe'i geilw'n Immanuel."

#59

Pwy yw'r sarff?

Datguddiad 20:2

Y diafol

#60

Pam caiff ei alw'n sarff?

Genesis 8:1-7

1.) Am iddo ddefnyddio'r sarff i hudo'n rhieni cyntaf.



#60

Pam caiff ei alw'n sarff?

Dat. 12:9

(2.) Oherwydd ei falais a'i elyniaeth yn erbyn Duw a'i bobl: "Fe'i bwriwyd hi, y ddraig fawr, yr hen sarff, a elwir Diabol a Satan, yr un sy'n twyllo'r holl fyd, fe'i bwriwyd i'r ddaear a'i hangylion gyda hi."

#60

2 Cor. 2:11

(3.) Oherwydd ei ddichellion a'i gyfrwysdra i dwyllo pobl: "Fe wyddom yn dda am ei ddichellion ef."

#61

Beth yw ystyr fod ei ben yn cael ei ysigo?

1 Ioan 3:8

Y byddai Crist fel dyn yn dinistrio ei holl weithredoedd, a distrywio ei holl lywodraeth: "I ddinistrio gweithredoedd y diabol yr ymddangosodd Mab Duw."



#62

Pa un yw Crist, Duw neu ddyn?

1 Tim. 3:16.

Y mae Crist yn Dduw ac yn ddyn hefyd: "Rhaid inni'n unfryd gyffesu mai mawr yw dirgelwch ein crefydd: 'Ei amlygu ef mewn crawd...'"

#63

Sut daeth Crist i fod yn Dduw ac yn ddyn hefyd?

Ioan 1:1

(1.) Yr oedd Crist yn Dduw erioed yn ei hanfod tragwyddol: "Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair."

#63

Luc 1:35

(2.) Cenhedlwyd dyndod Crist trwy'r Ysbryd Glân yng nghroth y Forwyn Fair: "Atebodd yr angel hi, 'Daw'r Ysbryd Glân arnat, a bydd nerth y Goruchaf yn dy gysgodi; am hynny, gelwir y plentyn a genhedlir yn sanctaidd, Mab Duw.'"

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#64

Pam oedd rhaid i'r Gwaredwr fod yn Dduw ac yn ddyn?

Esa. 45:21
63:5; Heb.
7:25-28.

(1.) Heb fod yn Dduw ni allai ein gwaredu:
“Nid oes Duw ond myfi, Duw cyfiawn, a gwaredydd. Nid oes neb ond myfi.”

#64

1 Pedr 3:18;
Gal. 4:4, 6;
Heb. 2:14.

(2.) Heb fod yn ddyn ni allai ddiodefod a marw drosom: “Oherwydd diodefodd Crist yntau un waith am byth dros bechodau, y cyfiawn dros yr anghyfiawn, i'ch dwyn chwi at Dduw. Er ei roi i farwolaeth o ran y cawd, fe'i gwnaed yn fyw o ran yr ysbryd.”

#65

Beth arall gallwn ddweud am waith Duw yn anfon ei Fab i waredu pechaduriaid?

Esa. 42:6

(1.) Yn nhragwyddoldeb etholodd Duw ei Fab yn Ben-Cyfamodwr ac yn Fechnïydd i'w bobl: “Myfi yw'r ARGLWYDD; gelwais di mewn cyfiawnder, a gafael yn dy law; lluniais di a'th osod yn gyfamod pobl, yn oleuni cenhedloedd.”

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#65

Ioan 17:6,12

Ioan 10:29

Ioan 6:39,40.

(2.) Rhoddodd Duw, mewn arfaeth gadarn, ei bobl etholedig iddo i'w prynu a'u gwaredu: "Yr wyf wedi amlygu dy enw i'r rhai a roddaist imi allan o'r byd. Eiddot ti oeddent, ac fe'u rhoddaist i mi."

#65

1 Pedr 1:20

Gal. 4:4-5.

(3.) Pan ddaeth cyflawniad yr amser, anfonodd Duw ei Fab i'r byd: "Yr oedd Duw wedi ei ddewis cyn seilio'r byd, ac amlygwyd ef yn niwedd yr amserau er eich mwyn chwi."

#66

Sawl cyfamod sydd?

Dau; y Cyfamod Gweithredoedd a'r Cyfamod Gras.



#67

Pa wahaniaethau sydd rhyngddynt?

1 Cor. 15:22

(1.) Adda oedd y Pen-Cyfamodwr yn y Cyfamod Gweithredoedd, ond Crist yw'r Pen-Cyfamodwr yn y Cyfamod Gras: "Oherwydd fel y mae pawb yn marw yn Adda, felly hefyd y gwneir pawb yn fyw yng Nghrist."

Rhuf. 10:5-8

Rhuf. 3:20-28

(2.) Trwy gyfiawnder ac ufudd-dod dyn ei hun yr oedd cyfiawnhad a bywyd yn y Cyfamod Gweithredoedd; ond trwy gyfiawnder Crist y mae cyfiawnhad a bywyd tragwyddol yn y Cyfamod Gras: "Ysgrifennodd Moses am y cyfiawnder trwy y Gyfraith: 'Y sawl sy'n cadw ei gofynion a gaiff fyw trwyddynt.' Ond fel hyn y dywed y cyfiawnder trwy ffydd: 'Paid â dweud yn dy galon, "Pwy a esgyn i'r nef?"' - hynny yw, i ddwyn Crist i lawr' - 'neu, "Pwy a ddisgyn i'r dyfnder?"' - hynny yw, i ddwyn Crist i fyny oddi wrth y meirw. Ond beth mae'n ei ddweud? 'Y mae'r gair yn agos atat, yn dy enau ac yn dy galon.' A dyma'r gair yr ydym ni yn ei bregethu, gair ffydd. - Ein dadl yw y cyfiawnheir rhywun trwy gyfrwng ffydd yn annibynnol ar gadw gofynion cyfraith."

Esa. 1:18

Esa 55:1,7

Dat. 22:17

(3.) Nid oedd addewid o faddeuant byth, am y pechod lleiaf, yn y Cyfamod Gweithredoedd; ond gelwir y pechaduriaid mwyaf i gael maddeuant, trwy Grist, yn y Cyfamod Gras: "'Yn awr, ynteu, ymresymwn â'n gilydd,' medd yr ARGLWYDD. 'Pe bai eich pechodau fel ysgarlad, fe fyddant cyn wynnwedd â'r eira; pe baent cyn goched â phorffor, fe ânt fel gwlan.'"

Gen. 2

Gen. 3 Eff.

1:4

(4.) Cyn cwmp dyn i bechod y gwnaed y Cyfamod Gweithredoedd, am fwynhad o'r bywyd oedd ganddo; ond ar ôl cwmp dyn yr *amlygwyd* y Cyfamod Gras, am gael bywyd tragwyddol ar ôl ei golli.

Jer. 32:40

Ioan 10:28-29

1 Ioan 2:2

2 Tim. 2:19

Phil. 1:6

(5.) Yr oedd parhâd dyn yn y Cyfamod Gweithredoedd yn sefyll ar ei nerth naturiol ei hun; ond y mae parhâd rhywun yn y Cyfamod Gras yn sefyll ar allu, ffyddlondeb, ac eiriolaeth Crist: "Gwnaf â hwy gyfamod tragwyddol, ac ni throff ef ymaith oddi wrthynt, ond gwneud yn dda iddynt; rhof fy ofn yn eu calon, rhag iddynt



#68

Oedd yna offeiriad yn y Cyfamod
Gweithredoedd?

Nac oedd

.....
.....
.....

Oes offeiriad yn y Cyfamod Gras

Oes

.....
.....
.....

Pwy yw ef?

Heb. 6:20

Iesu Grist, "wedi ei wneud yn
archoffeiriad am byth, yn ôl
urdd Melchisedec."

.....
.....
.....

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#71

Oedd yna gyfryngwr yn y Cyfamod
Gweithredoedd?

Nac oedd.

#72

Oes cyfryngwr yn y Cyfamod Gras?

1 Timotheus 2:5
Hebreaid 9:15

Oes: "Oherwydd un Duw sydd, ac un
cyfryngwr hefyd rhwng Duw a
dynion, sef Crist Iesu, yntau yn
ddyn."

#73

Oedd yna fechnïydd yn y Cyfamod
Gweithredoedd?

Nac oedd

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#74

Oes mechnïydd yn y Cyfamod Gras?

Hebreaid 7:22

Oes: "Yn gymaint â hynny, felly, y mae Iesu wedi dod yn feichiau cyfamod rhagorach."

#75

Oedd yna broffwyd i'n dysgu yn y Cyfamod Gweithredoedd?

Nac oedd.

#76

Oes proffwyd i'n dysgu yn y Cyfamod Gras?

Luc 7:16
Luc 24:19;
Act. 3:23
Act. 7:37.

Oes; mae'r Iesu'n Broffwyd mawr: "Cydiodd ofn ym mhawb a dechreusant ogoneddu Duw, gan ddweud, 'Y mae proffwyd mawr wedi codi yn ein plith', ac, 'Y mae Duw wedi ymweld â'i bobl.'"

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#77

Pa fath o gyfamod yw'r Cyfamod Gras?

Hos. 14:4

(1.) Mae'n gyfamod *rhad*: "Iachâf eu hanffyddlondeb; fe'u caraf o'm bodd, oherwydd trodd fy llid oddi wrthynt."

#77

Eseia
54:10

(2.) Mae'n gyfamod *sicr*: "'Er i'r mynyddoedd symud, ac i'r bryniau siglo, ni symuda fy ffyddlondeb oddi wrthynt, a bydd fy nghyfamod heddwch yn ddi-sigl,' medd yr ARGLWYDD, sy'n tosturio wrthynt."

#77

2 Sam.
23:5

(3.) Mae'n gyfamod *tragwyddol*, na ddaw byth i ben: "Gwnaeth gyfamod tragwyddol â mi, un trefnus ym mhob cymal, a diogel. Ef yw fy nghymorth i gyd a'm dymuniad; oni rydd lwyddiant i mi?"

#77

1 Cor 3:21,
Sech 8:3;
Heb 9:10.

(4.) Mae'n gyfamod *manteisiol*, oherwydd trwyddo cawn hawl i Dduw a'i holl briodoleddau, i Grist a holl roddion y prynedigaeth, i'r Ysbryd Glân a'i ddoniau, ac i holl addewidion Duw: "Oherwydd y mae pob peth yn eiddo i chwi... a chwithau yn eiddo Crist, a Christ yn eiddo Duw."

#77

Luc 1:72

(5.) Mae'n gyfamod *sanctaidd*, a phopeth sy'n perthyn iddo'n sanctaidd: "Fel hyn y cymerodd drugaredd ar ein hynafiaid, a chofio ei gyfamod sanctaidd."



#78

Pam daeth Iesu Grist i'r byd?

1 Tim. 1:15

“A dyma air i’w gredu, sy’n teilyngu derbyniad llwyr: ‘Daeth Crist Iesu i’r byd i achub pechaduriaid’.”

#79

A ddaeth Crist i’r byd fel y crewyd Adda, yn oedolyn?

Luc 2:12

Naddo, ganed ef yn blentyn bach fel eraill, gan ymostwng ym mhopeth i’n gwendidau di-bechod: “Cewch hyd i’r un bach wedi ei rwymo mewn dillad baban ac yn gorwedd mewn preseb.”

#80

Pryd ganed Crist?

Galatiaid 4:4

Yng nghyflawniad yr amser a ordeiniodd Duw, ac a rag-fynegwyd gan y proffwydi.



#81

Pwy oedd ei fam?

Mathew 1:18, 25

Mair Forwyn.

#82

Ble ganed Crist?

Mat. 2:6

Ym Methlehem Jwdea: "A thithau Bethlehem yng ngwlad Jwda, nid y lleiaf wyt ti o lawer ymysg tywysogion Jwda, canys ohonot ti y daw allan arweinydd a fydd yn fugail ar fy mhobl Israel."

#83

Ym mha gyflwr ganed Crist?

Luc 2:7

Mewn cyflwr tlawd, mewn stabl: "Ac esgorodd ar ei mab cyntafanedig; a rhwymodd ef mewn dillad baban a'i osod mewn preseb, am nad oedd lle iddynt yn y gwesty."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#84

A luniwyd Crist yn y groth yn ddi-
bechod?

Luc 1:35

Do: "Am hynny, gelwir y
plentyn a genhedlir yn
sanctaidd, Mab Duw."

#85

A fu Crist fyw ei holl fywyd yn ddi-
bechod?

1 Pedr 2:22

Do: "Ni wnaeth ef bechod, ac
ni chafwyd twyll yn ei enau."

#86

A ufuddhaodd Crist i'w rieni?

Luc 2:51

Do: "Bu'n ufudd iddynt."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#87

A ddiystyrodd efe hwynt am eu bod yn dlawd?

Ioan
19:26

Naddo, ond gofalodd am ei fam yn ei boenau mwyaf: "Pan welodd Iesu ei fam, felly, a'r disgybl yr oedd yn ei garu yn sefyll yn ei hymyl, meddai wrth ei fam, 'Wraig, dyma dy fab di.' Yna dywedodd wrth y disgybl, 'Dyma dy fam di.' Ac o'r awr honno, cymerodd y disgybl hi i mewn i'w gartref."

#88

A ddylem ni ufuddhau a pharchu ein rhieni yn ôl esiampl Crist?

Eff. 6:1, 2;
Col. 3:20

Dylem ufuddhau iddynt ym mhopeth: "Chwi blant, ufuddhewch i'ch rhieni yn yr Arglwydd, oherwydd hyn sydd iawn."

#89

Beth yw ystyr yr enw Iesu?

Luc 19:10

Gwardwr: "Daeth Mab y Dyn i geisio ac i achub y colledig."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#90

Oddi wrth beth y mae Iesu yn gwaredu ei bobl?

Mat. 1:21

1.) Oddi wrth eu pechodau: "A gelwi ef Iesu, am mai ef a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau."

#90

Gal. 3:13

(2.) Oddi wrth felltith y ddeddf: "Prynodd Crist ryddid i ni oddi wrth felltith y Gyfraith pan ddaeth, er ein mwyn, yn wrthrych melltith."

#90

1 Cor. 10:13;

2 Pedr 2:9.

(3.) Oddi wrth demtasiynau, profedigaethau, a gallu'r diafol: "Nid oes un prawf wedi dod ar eich gwarthaf nad yw'n gyffredin i bawb. Y mae Duw'n ffyddlon, ac ni fydd ef yn gadael ichwi gael eich profi y tu hwnt i'ch gallu; yn wir, gyda'r prawf, fe rydd ef ddihangfa hefyd, a'ch galluogi i ymgynnal dano."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#91

Beth yw ystyr yr enw Crist?

Eneiniog.

#92

Pwy eneiniodd ef?

Heb. 1:9

Duw y Tad: "Ceraist gyfiawnder a chasáu anghyfraith. Am hynny, O Dduw, y mae dy Dduw di wedi dy eneinio ag olew gorfoledd, uwchlaw dy gymheiriaid."

#93

Â beth yr eneiniwyd Crist?

Actau 10:38

"Eneiniodd Duw ef â'r Ysbryd Glân ac â nerth."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#94

Beth mae eneiniaid Crist yn arwyddocáu?

Esa. 61:1;
Mat. 3:11;
Ioan 3:34.

Ei osodiad a'i gymwysterau i fod yn Broffwyd, yn Offeiriad, ac yn Frenin i'w eglwys: "Y mae ysbrud yr Arglwydd DDUW arnaf, oherwydd i'r ARGLWYDD fy eneinio i gyhoeddi newyddion da i'r tlodion, a chysuro'r toredig o galon; i gyhoeddi rhyddid i'r caethion, a rhoi gollyngdod i'r carcharorion."

#95

Beth mae Crist yn gwneud fel Proffwyd?

Actau 3:22
Deut. 18:15.

Dysgu ei bobl: "Bydd yr Arglwydd eich Duw yn codi i chwi o blith eich cyd-genedl broffwyd, fel fi. Arno ef yr ydych i wrando ym mhob peth a lefara wrthych."

#96

Beth mae Crist yn dysgu i'w bobl?

Ioan 17:3

(1.) I adnabod Duw a'r hwn a anfonodd efe, lesu Grist: "A hyn yw bywyd tragwyddol: dy adnabod di, yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, lesu Grist."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#96

Eff. 1:8, 9;
Rhuf. 12:2;
Eff. 5:17;
Heb. 8:10, 11.

(2.) I adnabod ei feddwl a'i ewylllys yn ei air: "Dyma fesur cyfoeth y gras a roddodd mor hael i ni, ynghyd â phob doethineb a dirnadaeth. Hysbysodd i ni ddirgelwch ei ewylllys, yn unol â'r bwriad a arfaethodd yng Nghrist. - Er mwyn ichwi allu canfod beth yw ei ewylllys, beth sy'n dda a derbynol a pherffaith yn ei olwg ef."

#96

Ioan 16:8

(3.) I adnabod eu hunain fel pechaduriaid: "A phan ddaw [yr Eiriolwr], fe argyhoedda ef y byd ynglŷn â phechod."

#97

Trwy ba foddion mae Crist yn dysgu?

2 Tim. 3:15

Ioan 14:26

Trwy ei air a'i Ysbryd: "A'th fod er yn blentyn yn gyfarwydd â'r Ysgrythurau sanctaidd, sydd yn abl i'th wneud yn ddoeth a'th ddwyn i iachawdwriaeth trwy ffydd yng Nghrist Iesu. - Ond bydd yr Eiriolwr, yr Ysbryd Glân, a anfona'r Tad yn fy enw i, yn dysgu popeth ichwi, ac yn ddwyn ar gof ichwi y cwbl a ddywedais i wrthyh."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#98

Beth mae Crist yn gwneud fel Offeiriad?

Eff. 5:1- 2

(1.) Offrymu ei hun yn aberth dros ei bobl:
“Byddwch, felly, yn efelychwyr Duw, fel plant
annwyl iddo, gan fyw mewn cariad, yn union fel
y carodd Crist ni, a'i roi ei hun trosom, yn offrwm
ac aberth i Dduw, o arogl pêr.”

#98

1 Ioan 2:1, 2;
Heb. 7:25
Heb 9:24;
1 Tim. 2:5.

(2.) Eiriol dros ei bobl yn y nef: “Ond os
bydd i rywun bechu, y mae gennym
Eiriolwr gyda'r Tad, sef Iesu Grist, y
cyfiawn; ac ef sy'n aberth cymod dros
ein pechodau.”

#99

Beth mae Crist yn gwneud fel Brenin?

Salm 110:3
2 Cor. 10:4-5

(1.) Darostwng pechaduriaid ystyfnig i
fod yn bobl ufudd iddo: “Dy bobl a
fyddant ewyllysgar yn nydd dy nerth.”

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#99

Rhuf. 5:21
Rhuf. 6:14

(2.) Llywodraethu yng nghalonau ei bobl trwy ras: "Ac felly, fel y teyrnasodd pechod trwy farwolaeth, y mae gras i deyrnasu trwy gyfiawnder. - Ni chaiff pechod arglwyddiaethu arnoch, oherwydd nid ydych mwyach dan deyrnasiad cyfraith, ond dan deyrnasiad gras."

#99

Eseia 33:22

(3.) Amddiffyn ei bobl: "Yr ARGLWYDD yw ein barnwr, yr ARGLWYDD yw ein deddfwr; yr ARGLWYDD yw ein brenin, ac ef fydd yn ein gwaredu."

#100

Beth yw swm yr hyn a wnaeth Crist trosom, ac er ein hiachawdwriaeth?

Esa. 42:21

"Mawrhau'r gyfraith, a'i gwneud yn anrhydeddus."



#101

Sut anrhydeddodd Crist y gyfraith?

Phil 2:8

Trwy ufuddhau i'w gorchymynion, a dioddef eu melltithion: "Fe'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes."

#102

Beth yw swm y gyfraith?

Mathew 22:37, 39

Caru'r Arglwydd â'n holl galon, a'n cymydog fel ni ein hunain.

#103

A garodd Crist Dduw â'i holl galon?

Mat. 27:46

Do; a hynny dan ei ddigofaint mwyaf: "Gwaeddodd Iesu â llef uchel, Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael?"

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#104

A garodd Crist ei gymydog fel ef ei hun?

Luc
23:34

Do; a hynny yn eu gelyniaeth mwyaf yn ei erbyn:
“Ac meddai Iesu (ar y groes), O Dad, maddau
iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei
wneud.”

#105

Pam anrhydeddodd Crist y gyfraith?

Rhufeiniaid 7:12

Am ei bod yn “sanctaidd a
chyfiawn a da.”

#106

Oedd rhaid i Grist ufuddhau a
dioddef hefyd?

Rhuf. 10:4

Oedd; i dynnu ymaith y felltith, a gweithredu
cyfiawnder perffaith i’w bobl: “Oherwydd Crist
yw diwedd y Gyfraith, ac felly, i bob un sy’n
credu y daw cyfiawnder Duw.”

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#107

Pam oedd rhaid i Grist ddioddef melltithion y gyfraith?

Hebreaid
2:10

Am ei fod yn gyfiawn i Dduw gosbi pechod, a buasai'n anghyfiawn iddo beidio: "Oherwydd yr oedd yn gweddu i Dduw, yr hwn y mae popeth yn bod er ei fwyn a phopeth yn bod drwyddo, wrth ddwyn pobl lawer i ogoniant, wneud tywysog eu hiachawdwriaeth yn berffaith trwy ddioddefiadau."

#108

O ba farwolaeth y bu Crist farw?

Hebreaid 12:2

O farwolaeth felltigatedig y groes:
"Fe oddefodd ef y groes heb ddiffygio, gan ddiystyru gwarth."

#109

Pwy groeshoeliwyd gyda Christ?

Luc 23:33

Dau leidr, un ar y llaw dde, a'r llall ar y chwith.



#110

Pwy roddodd ef i farwolaeth?

Ioan 19:16

Pontius Pilat, rhaglaw Jwdea.

#111

Ble croeshoeliwyd Crist?

Heb. 13:12;
Luc 23:33.

Ar fynydd Calvaria, tu allan i waliau Jerwsalem:
“Felly Iesu hefyd, dioddef y tu allan i'r porth a
wnaeth ef, er mwyn sancteiddio'r bobl trwy ei
waed ei hun.”

#112

Beth oedd dioddefiadau Crist i ni?

Rhuf.
3:25, 26

lawn dros ein pechodau: “Yr hwn a osododd Duw
gerbron y byd, yn ei waed, yn iawn trwy ffydd.
Gwnaeth Duw hyn i ddangos ei gyfiawnder yn
ddiymwad, yn wyneb yr anwybyddu a fu ar
bechodau'r gorffennol yn amser ymatal Duw; ie, i
ddangos ei gyfiawnder yn ddiymwad yn yr amser
presennol hwn, sef ei fod ef ei hun yn gyfiawn a
hefyd yn cyfiawnhau'r sawl sy'n meddu ar ffydd yn
Iesu.”

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#113

A oedd dioddefiadau Crist yn iawn digonol am bechod?

1 Ioan 2:2

Oeddynt; yn aberth, offrwm a iawn cyflawn, perffaith a digonol dros y rhai oll a gredant ynddo yn yr holl fyd: "Ac ef sy'n iawn dros ein pechodau, ac nid dros ein pechodau ni yn unig, ond hefyd bechodau'r holl fyd."

#114

Pa sicrwydd sydd gennym o hynny?

Rhuf. 4:25;
1 Cor. 15:17-20;
Phil 2:9.

Mae ei atgyfodiad a'i ddyrchafiad yn y nefoedd yn sicrhau hynny: "Cafodd ef ei draddodi i farwolaeth am ein camweddau, a'i gyfodi i'n cyfiawnhau ni."

#115

Ym medd pwy claddwyd Crist?

Esa. 53:9;
Mat. 27:60;
Marc 15:46.

Ym medd newydd Joseff o Arimathea, lle nad oedd neb wedi gorwedd hyd hynny: "Rhoddwyd iddo fedd gyda'r rhai drygionus, a beddrod gyda'r troseddwyr."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#116

Pam claddwyd Crist mewn bedd newydd, lle nad oedd neb wedi gorwedd hyd hynny?

Luc 23:53

Fel byddai ei atgyfodiad yn fwy eglur a sicr: “Gosododd ef mewn bedd wedi ei naddu, lle nad oedd neb hyd hynny wedi gorwedd.”

#117

Pryd cyfododd Crist?

1 Cor. 15:4

Yn gynnar y trydydd dydd: “Iddo gael ei gladdu, a'i gyfodi y trydydd dydd, yn ôl yr Ysgrhythurau.”

#118

Oedd Crist yn abl i godi ei hun o'r bedd?

Ioan
10:18

Oedd: “Nid yw neb [medd Iesu am ei fywyd] yn ei dwyn oddi arnaf, ond myfi ohonof fy hun sy'n ei rhoi. Y mae gennyf hawl i'w rhoi, ac y mae gennyf hawl i'w derbyn eilwaith.”

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#119

Oedd ei atgyfodiad yn profi ei fod yn Dduw yn ogystal ag yn ddyn?

Rhuf. 1:4

Oedd: “Yn nhrefn sanctaidd yr Ysbryd, cyhoeddwyd ef yn Fab Duw, â mawr allu, trwy atgyfodiad o farwolaeth.”

#120

Oedd Crist yn gryfach nac angau?

Hos 13:14
Heb. 2:14
1 Cor. 15:21-22

Oedd; gorchfygodd angau, a dinistriodd yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo: “A waredaf hwy o Sheol? A achubaf hwy rhag angau? O angau, ble mae dy blâu? O Sheol, ble mae dy ddinistr? Cuddiwyd trugaredd oddi wrth fy llygaid.”

#121

Ydy Crist yn Arglwydd ar y byw a'r meirw?

Rhuf. 14:9

Ydy: “Oherwydd pwrpas Crist wrth farw a dod yn fyw oedd bod yn Arglwydd ar y meirw a'r byw.”



#122

Pryd esgynodd Crist i'r nefoedd?

Actau 1:9;
Salm 68:18;
Effesiaid 1:20, 21
Effesiaid 4:8.

Deugain diwrnod ar ôl ei atgyfodiad fe esgynodd yn weladwy uwch yr holl nefoedd, yn fuddugoliaethus ar ei holl elynion, gan arwain ei garcharorion yn gaeth a rhoi roddion i bobl.

#123

O ble'r esgynodd Crist?

Act. 1:12

O fynydd yr Olewydd yn agos i Jerwsalem

#124

Beth oedd y weithred olaf a wnaeth ef cyn esgyn?

Luc 24:51

Bendithio'i ddisgyblion: "Wrth iddo'u bendithio, fe ymadawodd â hwy ac fe'i dygwyd i fyny i'r nef."



#125

A ddaw Crist unwaith eto o'r nefoedd?

Actau 1:11
Actau 3:21

Daw, yn niwedd y byd hwn, i
farnu'r byw a'r meirw.

#126

Ai dim ond Crist all ein hachub?

Actau 4:12

Ie: "Ac nid oes iachawdwriaeth yn neb arall,
oblegid nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roi
i'r ddynolryw, y mae'n rhaid i ni gael ein
hachub drwyddo."

#127

Sut caiff pechadur ei gyfiawnhau o flaen
Duw?

Rhuf. 3:28
Rhuf. 10:3

Trwy ffydd yng nghyfiawnder Crist yn unig: "Ein
dadl yw y cyfiawnheir rhywun trwy gyfrwng
ffydd yn annibynnol ar gadw gofynion cyfraith."



#128

Oni all person gael ei gyfiawnhau trwy ei gyfiawnder ei hun?

Eseia
64:6

Na all; am nad yw'n meddu'r cyfiawnder perffaith y mae'r gyfraith yn ei ofyn: "Aethom i gyd fel peth aflan, a'n holl gyfiawnderau fel clytiau budron; yr ydym i gyd wedi crino fel deilen, a'n camweddau yn ein chwythu i ffwrdd fel y gwynt."

#129

Beth yw ystyr cyfiawnder Crist?

1 Pedr 3:18;
Rhuf. 5:19.

Ei ufudd-dod perffaith i'r gyfraith yn ei fywyd, a'r iawn a dalodd yn ei farwolaeth: "Oherwydd dioddefodd Crist yntau un waith am byth dros bechodau, y cyfiawn dros yr anghyfiawn, i'ch dwyn chwi at Dduw. - Gwneir y llawer yn gyfiawn trwy ufudd-dod un dyn."

#130

Dros bwy bu Crist farw?

Ioan 10:15, 28, 29
Ioan 17:6

Dros ei bobl etholedig a roddwyd iddo gan y Tad: "Yr wyf yn rhoi fy einioes dros y defaid."



#131

Ym mha ystyr y bu Crist farw drostynt?

Eseia
53:5

Fel eu Mechnïydd, yn talu drostynt, ac yn marw yn eu lle: "Ond archollwyd ef am ein troseddau ni, a'i ddryllio am ein camweddau ni; roedd pris ein heddwch ni arno ef, a thrwy ei gleisiau ef y cawsom ni iachâd."

#132

A gyfrifwyd pechodau ei bobl i Grist?

Eseia 53:6
2 Cor. 5:21

Do: "Rhoes yr ARGLWYDD arno ef ein beiau ni i gyd. - Ni wybu Crist beth oedd pechu, ond gwnaeth Duw ef yn un â phechod drosom ni, er mwyn i ni ddod yn gyfiawnder Duw ynddo ef."

#133

Sut mae cyfiawnder Crist yn dod yn eiddo i ni?

Rhuf. 4:3,
23, 24.

Trwy gyfrifiad ohono gan Dduw, ac undeb â Christ: "Credodd Abraham yn Nuw, ac fe'i cyfrifwyd iddo yn gyfiawnder - Ysgrifennwyd y geiriau, 'fe'i cyfrifwyd iddo', nid ar gyfer Abraham yn unig, ond ar ein cyfer ni hefyd. Y mae cyfiawnder i'w gyfrif i ni, sydd â ffydd gennym yn yr hwn a gyfododd Iesu ein Harglwydd oddi wrth y meirw."



#134

Pwy sydd yn cyfiawnhau pechadur?

Rhufeiniaid 8:33

“Duw yw’r un sy’n dyfarnu’n gyfiawn.”

#135

Beth yw cyfiawnhad?

Rhufeiniaid
3:24, 30.

Gweithred rasol Duw yn cyfrif cyfiawnder Crist i bechadur trwy ffydd: “Gan ras Duw, ac am ddim, y maent yn cael eu cyfiawnhau, trwy’r prynedigaeth sydd yng Nghrist Iesu. – Un yw Duw, a bydd yn cyfiawnhau’r enwaededig trwy ffydd, a’r dienwaededig trwy’r un ffydd.”

#136

Sut mae pechadur yn cael ei ddwyn i undeb â Christ?

Eff. 1:18, 19;
Rhuf. 10:17
Rhuf. 1:19;
Col. 2:12.

Trwy waith nerthol yr Ysbyrd Glân yn creu ffydd yn yr enaid i ddod at Grist a’i dderbyn: “Bydded iddo oleuo llygaid eich deall, a’ch dwyn i wybod... beth yw aruthrol fawredd y gallu sydd ganddo o’n plaid ni sy’n credu, y grymyster hwnnw a gyflawnodd yng ngrym ei nerth yng Nghrist.”



#137

Beth yw ffydd?

Heb.
11:1, 3

1.) Yn gyffredinol, credu tystiolaeth Duw yn ei air: “Yn awr, y mae ffydd yn warant o bethau y gobeithir amdanynt, ac yn sicrwydd o bethau na ellir eu gweld. Trwy ffydd yr ydym yn deall i'r bydysawd gael ei lunio gan air Duw.”

#137

1 Ioan
5:10, 11

Ffydd gyfiawnaol yw credu tystiolaeth Duw am ei Fab yn arbennig, ac ymorffwys arno am iachawdwriaeth: “Y mae'r sawl nad yw'n credu Duw yn ei wneud ef yn gelwyddog, am nad yw wedi credu'r dystiolaeth y mae Duw wedi ei rhoi. A hon yw'r dystiolaeth: bod Duw wedi rhoi inni fywyd tragwyddol. Ac y mae'r bywyd hwn yn ei Fab.”

#138

Pa fath o gyfiawnder yw cyfiawnder Crist?

Rhuf. 3:21
Rhuf. 1:17;
Jer. 23:6;
1 Cor. 1:30

(1.) Mae'n gyfiawnder dwyfol; Duw yn y cnawd a'i cwblhaodd: “Ond yn awr, yn annibynnol ar gyfraith, y mae cyfiawnder Duw wedi ei amlgu. Y mae'r Gyfraith a'r proffwydi, yn wir, yn dwyn tystiolaeth iddo. – Dyma'r enw a roddir iddo: 'Yr ARGLWYDD ein Cyfiawnder'.”

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#138

Eseia
42:21

(2.) Mae'n gyfiawnder digonol, nad oes rhaid ychwanegu ato: "Dymunodd yr ARGLWYDD, er mwyn ei gyfiawnder, fawrhau'r gyfraith, a'i gwneud yn anrhydeddus."

#138

Daniel
9:24.

(3.) Mae'n gyfiawnder tragwyddol: "Nodwyd deg wythnos a thrigain i'th bobl ac i'th ddinas sanctaidd, i roi diwedd ar wrthryfel a therfyn ar bechodau, i wneud iawn am ddrygioni ac i adfer cyfiawnder tragwyddol."

#138

Rhuf.
8:22, 24

(4.) Mae'n gyfiawnder rhad, i bawb ac ar bawb a gredant: "Gan ras Duw, ac am ddim, y maent yn cael eu cyfiawnhau, trwy'r prynedigaeth sydd yng Nghrist Iesu."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#139

Beth ddaw gyda chyfrifiad o gyfiawnder Crist?

Rhuf.
4:6-8

(1.) Maddeuant llawn o'r holl bechodau: "Dyna ystyr yr hyn y mae Dafydd yn ei ddweud am wynfyd y rhai y mae Duw yn cyfrif cyfiawnder iddynt, yn annibynnol ar gadw gofynion cyfraith: 'Gwyn eu byd y rhai y maddeuwyd eu troseddau, ac y cuddiwyd eu pechodau; gwyn ei fyd y sawl na fydd yr Arglwydd yn cyfrif pechod yn ei erbyn.'"

#139

2 Cor.
5:19

(2.) Derbyniad tragwyddol, a chymod â Duw: "Hynny yw, yr oedd Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun, heb ddal neb yn gyfrifol am ei droseddau."

#140

Pa fath o undeb sydd rhwng Crist a'i bobl?

Ioan
17:22

(1.) Undeb gwirioneddol: "Yr wyf fi wedi rhoi iddynt hwy y gogoniant a roddaist ti i mi, er mwyn iddynt fod yn un fel yr ydym ni yn un."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#140

Effesiaid
5:30, 32

(2.) Undeb aruchel a dirgel: “Oherwydd yr ydym ni’n aelodau o’i gorff ef – Y mae’r dirgelwch hwn yn fawr. Cyfeirio yr wyf at Grist ac at yr eglwys.”

#140

Rhuf. 8:35,
38, 39;
Esa. 54:10.

(3.) Undeb anwahanadwy, na all na bywyd, nac angau, na dim arall, ei dorri: “Pwy a’n gwahana ni oddi wrth gariad Crist? Ai gorthrymder, neu ing, neu erlid, neu newyn, neu noethni, neu berygl, neu gledlyf? Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes, nac angylion na thywysogaethau, na’r presennol na’r dyfodol, na grymsterau nac uchelderau na dyfnderau, na dim arall a grewyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.”

#140

1 Cor.
3:22, 23

(4.) Undeb manteisiol iawn: “Mae pob peth yn eiddo i chwi, a chwithau yn eiddo Crist, a Christ yn eiddo Duw.”

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#141

Pa fanteision a breintiau sy'n dod o undeb â Christ?

Heb. 3:14;
Can. 2:16
5:16.

(1.) Mae Crist ei hun yn eiddo i ni yn ei holl berthnasau a'i swyddau: sef yn Gâr, yn Gyfaill, yn Fechnïydd, yn Feddyg, yn Frawd, yn Brynwr, yn Briod, yn Broffwyd, yn Frenin, yn Archoffeiriad trugarog, ac yn Ddadleuwr trosom gerbron Duw: "Oherwydd yr ydym ni bellach yn gydyfranogion â Christ, os glynwn yn dynn hyd y diwedd wrth ein hyder cyntaf."

#141

1 Cor. 1:30;
Rhuf. 8:1

(2.) Mae cyfiawnder Crist yn eiddo i ni. Trwy'r cyfiawnder yma cawn ein hachub o ddamnedigaeth, ac fe roddir hawl i fywyd tragwyddol i ni: "Ond trwy ei weithred ef yr ydych chi yng Nghrist Iesu, yr hwn a wnaed yn ddoethineb i ni oddi wrth Dduw, yn gyfiawnder a sancteiddhad a phrynedigaeth."

#141

Ioan 1:12;
Eff. 1:5.

(3.) Trwy undeb â Christ cawn ein mabwysiadu i fod yn blant i Dduw: "Ond cynifer ag a'i derbyniodd, rhoes iddynt hwy, y rhai sy'n credu yn ei enw, hawl i ddod yn blant Duw."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#141

Ioan 15:5;
Rhuf. 7:4.

(4.) Trwy undeb â Christ y mae ein bywyd ysbrydol a'n nerth i ddwyn ffrwyth da, er gogoniant i Dduw – fel mae bywyd a nerth yr aelodau yn deillio o'u hundeb â'r corff, a ffrwyth y canghennau o'u hundeb a'r pren: “Y mae'r sawl sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, yn dwyn llawer o ffrwyth, oherwydd ar wahân i mi ni allwch wneud dim.”

#141

Rhuf. 8:17

(5.) Trwy undeb â Christ y bydd atgyfodiad gogoneddus i'r saint, ac y gwneir hwynt yn gyd-etifeddion â Christ yn y nefoedd: “Ac os plant, etifeddion hefyd, etifeddion Duw a chydetifeddion â Christ, os yn wir yr ydym yn cyfranogi o'i ddioddefaint ef er mwyn cyfranogi o'i ogoniant hefyd.”

#142

Ym mha ffordd cawn ein gwneud yn gyfranogion o'r breintiau hyn trwy Grist?

1 Cor. 15:22

(1.) Fel rydym yn Adda yn gyd-gyfranogion ag ef yn ei gwmp a'i gosb, felly cawn ein gwneud yng Nghrist yn gyd-gyfranogion o haeddiant ei holl ddioddefaint ef drosom: “Oherwydd fel y mae pawb yn marw yn Adda, felly hefyd y gwneir pawb yn fyw yng Nghrist.”

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#142

1 Cor.
15:45, 49

(2.) Fel yr halogwyd ac y collwyd ni yn Adda trwy bechod, felly yng Nghrist cawn ein glanhau a chawn ein cadw trwy ffydd: “Daeth y dyn cyntaf, Adda, yn fod byw. Ond daeth yr Adda diwethaf yn ysbryd sydd yn rhoi bywyd – Ac fel y bu delw’r dyn o’r llwch arnom, felly hefyd y bydd delw’r dyn o’r nef arnom.”

#142

Ioan 10:10;
Rhuf. 5:20

(3.) Trwy Grist cawn y cwbl a gollom yn Adda, a llawer mwy: oherwydd fod cyfiawnder Crist yn rhagori mewn daioni ar y drwg sydd mewn pechod: “Yr wyf fi wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a’i gael yn ei holl gyflawnder – lle’r amlhaodd pechod, daeth gorlif helaethach o ras.”

#143

Beth yw gwaith yr Ysbryd Glân?

2 Thes. 2:13;
1 Pedr 1:2;
Luc 1:75.

Sancteiddio a newid pechaduriaid i ddelw Duw: “Fe ddylem ni ddiolch i Dduw bob amser amdanoch chwi, gyfeillion annwyl gan yr Arglwydd, am i Dduw eich dewis chwi fel y rhai cyntaf i brofi iachawdwriaeth trwy waith sancteiddiol gan yr Ysbryd a thrwy gredu’r gwirionedd.”



#144

Pwy mae'r Ysbryd yn sancteiddio?

1 Pedr 1:2;
Eff. 1:4.

Holl bobl etholedig Dduw: "Etholedigion yn ôl rhagwybodaeth Duw y Tad, trwy waith sancteiddiol yr Ysbryd, i fod yn ufudd i Iesu Grist ac i'w taenellu â'i waed ef."

#145

A oes unrhywun yn sanctaidd yn naturiol?

Salm 51:5;
Job 14:4;
Ioan 3:8;
Rhuf. 5:12.

Nac oes: "Wele, mewn drygioni y'm ganwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam."

#146

A all unrhywun fod yn gadwedig heb sancteiddrwydd?

Hebraid 12:14

Na all: "Ceisiwch... y bywyd sanctaidd hwnnw nad oes modd i neb weld yr Arglwydd hebdo."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#147

A all unrhywun heblaw'r Ysbryd Glân
sancteiddio pechadur aflan?

1 Cor. 6:11
1 Cor 2:10-11

Na all: "Yr ydych wedi'ch golchi, a'ch
sancteiddio, a'ch cyfiawnhau trwy enw'r
Arglwydd Iesu Grist, a thrwy Ysbryd ein Duw
ni."

#148

Pa enwau sy'n cael eu rhoi ar y newid
hwn?

1 Pedr 1:23;
Ioan 3:8.

(1.) Ail-enedigaeth, am eu bod yn cael eu geni
eto o Dduw: "Yr ydych wedi eich geni o'r
newydd, nid o had llygradwy, ond anllygradwy,
trwy air Duw, sydd yn fyw ac yn aros."

#148

Col. 2:13;
Eff. 2:1.

(2.) Atgyfodiad, am fod yr enaid, sy'n
farw mewn pechod, yn cael ei fywhau
yn ysbrydol: "Ac er eich bod yn feirw yn
eich camweddau a'ch cnawd
dienwaededig, fe'ch gwnaeth chwi yn
fyw gydag ef. Y mae wedi maddau inni
ein holl gamweddau."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#148

Eff. 2:10
2 Cor. 5:5, 17

3.) Creadigaeth newydd, am na all dim byd ond gallu anfeidrol Duw ei gwblhau: "Oherwydd ei waith ef ydym, wedi ein creu yng Nghrist Iesu i fywyd o weithredoedd da, bywyd y mae Duw wedi ei drefnu inni o'r dechrau."

#148

Deut. 30:6
Deut. 10:16

(4.) Enwaediad y galon: "Bydd yr ARGLWYDD dy Dduw yn enwaedu dy galon, a chalonnau dy ddisgynyddion, er mwyn iti garu yr ARGLWYDD dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid, fel y byddi fyw."

#148

Eseciel
36:25-27
Eseciel
11:19;
Jeremeia
32:39.

(5.) Rhoi calon ac ysbryd newydd: "Taenellaf ddŵr glân drosoch i'ch glanhau; a byddwch yn lân o'ch holl aflendid ac o'ch holl eilunod. Rhof i chwi galon newydd, a bydd ysbryd newydd ynoch; tynnaf allan ohonoch y galon garreg, a rhof i chwi galon gig. Rhof fy ysbryd ynoch, a gwneud ichwi ddilyn fy neddfau a gofalu cadw fy ngorchmynion."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#148

Hebreaid 8:10

(6.) Rhoi'r gyfraith yn y meddwl, a'i hysgrifennu yn y galon: "Rhof fy nghyfreithiau yn eu meddwl, ac ysgrifennaf hwy ar eu calon. A byddaf yn Dduw iddynt, a hwythau'n bobl i mi."

#149

Sut mae'r Ysbryd Glân yn gweithredu'r newid hwn?

2 Cor. 5:17

Trwy uno'r enaid â Christ; oherwydd trwy undeb â Christ mae pob gras a baint yn deillio i ni: "Os yw rhywun yng Nghrist, y mae'n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma."

#150

Sut mae'r Ysbryd Glân yn dod â phechadur at Grist?

Ioan 16:8

(1.) Trwy argyhoeddi'r enaid o bechod: "A phan ddaw, fe argyhoedda ef y byd ynglŷn â phechod."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#150

Ioan 16:14;

Mat. 16:17;

1 Cor. 2:10

(2.) Trwy amlygu Iesu Grist yn Iachawdwr digonol i bechadur: "Bydd ef yn fy ngogoneddu i [medd Crist], oherwydd bydd yn cymryd o'r hyn sy'n eiddo i mi ac yn ei fynegi i chwi."

#150

1 Cor. 12:3

(3.) Trwy ei nerthu i ymddiried yng Nghrist am iachawdwriaeth: "Ni all neb ddweud, 'Iesu yw'r Arglwydd!' ond trwy yr Ysbryd Glân."

#151

Beth yw Pechod?

1 Ioan 3:4

"Anghyfraith yw pechod."



#152

Beth yw anghyfraith?

Anghyddfurfio â chyfraith Duw mewn meddwl, gair, neu weithred; hynny yw, peidio â gwneud y peth mae Duw'n gorchymyn, neu wneud yr hyn mae'n gwahardd.

#153

Sawl math o bechod sydd?

Dau; pechod gwreiddiol, a phechod gweithredol.

#154

Beth yw pechod gwreiddiol?

Rhuf. 5:18, 19

Cyfrifiad o bechod cyntaf Adda i ni, a'r felltith ddyledus amdano, ynghyd â llygriad ein holl natur mewn canlyniad i hynny: "Dyma'r gymhariaeth gan hynny: fel y daeth collfarn ar y ddynolryw i gyd trwy un weithred o drosedd, felly hefyd y daeth cyfiawnhad sy'n esgor ar fywyd i'r ddynolryw i gyd trwy un weithred o gyfiawnder. Fel y gwnaethpwyd y llawer yn bechaduriaid trwy anufudd-dod un dyn, felly hefyd y gwneir y llawer yn gyfiawn trwy ufudd-dod un dyn."



#155

Beth yw pechod gweithredol?

1 Ioan 3:4

Troseddiad o gyfraith Duw ar feddwl, gair, neu weithred: "Y mae pob un sy'n cyflawni pechod yn gwneud anghyfraith hefyd."

#156

Beth sy'n nodweddi gwir argyhoeddiad o bechod?

Rhuf. 7:18

(1.) Cydnabyddiaeth o bechadurusrwydd ein holl natur: "Oherwydd mi wn nad oes dim da yn cartrefu ynof fi, hynny yw, yn fy nghnawd."

#156

Genesis 39:9

(2.) Cydnabyddiaeth o'r drwg mawr sydd mewn pechod: "Sut felly y gwawn i y drwg mawr hwn, a phechu yn erbyn Duw?"

#156

Salm 51:4;
Rhuf. 3:4

(3.) Cyfiawnhad o farn gyfiawn Duw yn ein herbyn am bechod: "Yn dy erbyn di, ti yn unig, y pechais a gwneud yr hyn a ystyri'n ddrwg, fel dy fod yn gyfiawn yn dy ddedfryd, ac yn gywir yn dy farn."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#156

Actau
16:30,31 a 21

Actau
2:37, 38

(4.) Cydnabyddiaeth o'r angenrheidrwydd am iachawdwriaeth mewn un arall i'n gwaredu oddi wrth y farn ofnadwy hon: "Yna daeth â hwy allan a dweud, 'Foneddigion, beth sy raid imi ei wneud i gael fy achub?' Dywedasant hwythau, 'Cred yn yr Arglwydd Iesu, ac fe gei dy achub'."

#157

Sut, yn fwyaf arbennig, mae'r Ysbryd Glân yn argyhoeddi'r enaid o bechod?

Rhuf. 3:20
Rhuf. 7:7

(1.) Trwy'r Gyfraith: "Yr hyn a geir trwy'r Gyfraith yw ymwybyddiaeth o bechod."

#157

Actau 26:18

Rhuf. 7:13

(2.) Mae'r Ysbryd Glân yn agor eu llygaid, a'u troi o dywyllwch i oleuni, gan ddangos bod pechod yn wir bechadurus.



#158

Beth yw gwir edifeirwch am bechod?

Job 42:6;
Luc 1:37, 38

1.) Gwir ostyngeddwydd a thristwch duwiol am bechod: "Am hynny rwyf yn fy ffeiddio fy hunan, ac yn edifarhau mewn llwch a lludw."

#158

2 Cor. 7:11

(2.) Casineb mawr at bechod: "Ystyriwch ganlyniadau derbyn eich loes mewn ffordd dduwiol: y fath ymroddiad a barodd ynoch, ie, y fath hunanamddiffyniad, y fath ddicter, y fath ofn, y fath ddyhead, y fath sêl, y fath benderfyniad i gosbi'n gyfiawn?"

#158

Rhuf. 7:24

(3.) Ymgais dyfal am waredigaeth oddi wrtho: "Y dyn truan ag ydwyf! Pwy a'm gwared i o'r corff hwn a'i farwolaeth?"

#158

Rhuf. 7:24

(4.) Adnewyddiad mewn ysbryd a meddwl: "A'ch bod i gael eich adnewyddu mewn ysbryd a meddwl, a gwisgo amdanoch y natur ddynol newydd sydd wedi ei chreu ar ddelw Duw, yn y cyfiawnder a'r sancteiddrwydd sy'n gweddu i'r gwirionedd."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#158

Eseia. 55:7

(5.) Dychweliad at Dduw yng Nghrist: “Gadawed y drygionus ei ffordd, a’r un ofer ei fwriadau, a dychwelyd at yr ARGLWYDD, iddo drugarhau wrtho, ac at ein Duw ni, oherwydd fe faddau’n helaeth.”

#158

Hoseia 14:8
1 Pedr 4:2-3

(6.) Bwriad difrifol i ddilyn buchedd newydd: “Beth sydd a wnelo Effraim mwy ag eilunod?”

#159

A fydd unrhywun yn gadwedig heb wir edifeirwch am bechod?

Luc 13:5

Na fydd: “Os nad edifarhewch, fe dderfydd amdanoch oll.”



#160

Ydy Duw'n maddau pechodau'r edifeiriol?

Actau
5:31
Actau
3:19.

Ydy: mae edifeirwch a maddeuant wedi eu cysylltu'n anwahanadwy â'i gilydd: "Hwn a ddyrchafodd Duw at ei law dde yn Bentywysog a Gwaredwr, i roi edifeirwch i Israel a maddeuant pechodau."

#161

Sut mae Duw'n maddau?

1 Ioan 1:9;
Salm 51:4.

(1.) Mae'n maddau'n gyfiawn, trwy Grist: "Os cyffeswn ein pechodau, y mae ef yn ffyddlon ac yn gyfiawn, ac felly fe faddeua inni ein pechodau, a'n glanhau o bob anghyfiawnder."

#161

Eseia. 43:25

(2.) Mae'n maddau'n rhad: "Myfi, myfi yw Duw, sy'n dileu dy droseddau er fy mwyn fy hun, heb alw i gof dy bechodau."

#161

Salm 103:3;
Micha 7:19.

(3.) Mae'n maddau'r cwbl: "Ef sy'n maddau fy holl gamweddau, yn iacháu fy holl afiechyd."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#161

Jeremeia 31:34;
Hebreaid 8:12.

(4.) Mae'n maddau am byth:
"Oherwydd maddeuaf iddynt
eu drygioni, ac ni chofiaf eu
pechodau byth mwy."

#162

Beth arall mae'r Ysbryd Glân yn gwneud
i ddod â phechadur at Grist?

Ioan 16:8, 10

Amlygu Iesu Grist yn lachawdwr digonol i
bechaduriaid: "A phan ddaw, fe argyhoedda ef
y byd ynglŷn â phechod, a chyfiawnder, a
barn."

#163

Trwy ba foddion mae'r Ysbryd Glân yn
amlygu Crist?

Ioan 5:39;
Rhuf. 10:17.

Trwy'r gair, ac ordinhadau'r efengyl: "Yr ydych
yn chwilio'r Ysgrythurau - tystiolaethu amdanaf
fi y mae'r rhain. - Felly, o'r hyn a glywir y daw
ffydd, a daw'r clywed trwy air Crist."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#164

Pwy sy'n derbyn y datguddiad hwn o Grist?

Mathew 9:12

(1.) Y rhai a wir argyhoeddwyd o bechod: "Nid ar y cryfion ond ar y cleifion y mae angen meddyg."

.....

.....

.....

#164

1 Cor. 2:14

(2.) Y rhai a wir newidiwyd gan Ysbryd Duw: "Nid yw'r rhai anianol yn derbyn pethau Ysbryd Duw, oherwydd ffolineb ydynt iddynt hwy, ac ni allant eu hamgyffred, gan mai mewn modd ysbrydol y maent yn cael eu barnu."

.....

.....

.....

#165

Pa bethau am yr Iesu yn fwyaf arbennig mae'r Ysbryd Glân yn eu datguddio i'r enaid?

Ioan 1:14

(1.) Mawredd rhagorol a gogoniant ei Berson: "A daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad."

.....

.....

.....

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#165

Ioan 8:42
Ioan 17:3

(2.) Ei fod wedi ei osod gan Dduw yn y swydd o Gyfryngwr: "Oddi wrth Dduw y deuthum allan a dod yma. Nid wyf wedi dod ohonof fy hun, ond ef a'm hanfonodd."

#165

Mat. 20:28
1 Pedr 1:18-19
Dat. 1:5

(3.) Digonolrwydd ei aberth yn iawn am bechod: "Mab y Dyn [ni] ddaeth i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer."

#165

Eff. 3:8-9;
Col. 1:17-19.

(4.) Golud anchwiliadwy ei ras: "I mi, y llai na'r lleiaf o'r holl saint, y rhoddwyd y rhodd raslon hon, i bregethu i'r Cenhedloedd anchwiliadwy olud Crist."

#165

Ioan 6. 37
Esa. 55:7
Dat. 22:17

5.) Ei barodrwydd i dderbyn pechaduriaid: "Bydd pob un y mae'r Tad yn ei roi i mi yn dod ataf fi, ac ni fwriaf allan byth mo'r sawl sy'n dod ataf fi."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#166

Beth yw canlyniadau'r datguddiad hwn o Grist?

Can. 1:3-4
1 Pedr 2:7

1.) Y cariad anwylaf at Grist: "Ac arogl dy bersawr yn hyfryd, a'th enw fel persawr wedi ei wasgaru; dyna pam y mae merched yn dy garu."

#166

Philipiaid
3:8-9

(2.) Gwrthodiad llawn â phopeth arall, ac ymorffwys ar Grist yn unig am iachawdwriaeth: "A mwyn na hynny hyd yn oed, yr wyf yn dal i gyfrif pob peth yn golled, ar bwys rhagoriaeth y profiad o adnabod Crist Iesu fy Arglwydd, yr un y collais bob peth o'i herwydd. Yr wyf yn cyfrif y cwbl yn ysbwriel, er mwyn imi ennill Crist a'm cael ynddo ef, heb ddim cyfiawnder o'm heiddo fy hun sy'n tarddu o'r Gyfraith, ond hwnnw sydd trwy ffydd yng Nghrist, y cyfiawnder sydd o Dduw ar sail ffydd."

#166

Rhufeiniaid
5:1

(3.) Heddwch â Duw: "Am hynny, oherwydd ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae gennym heddwch â Duw trwy ein Harglwydd Iesu Grist."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#166

2 Cor. 3. 18

(4.) Cynnydd mewn gwir sancteiddrwydd: “Ac yr ydym ni i gyd, heb orchudd ar ein hwyneb, yn edrych, fel mewn drych, ar ogoniant yr Arglwydd ac yn cael ein trawsffurfio o ogoniant i ogoniant, yn wir lun ohono ef. A gwaith yr Arglwydd, yr Ysbryd, yw hyn.”

#167

Ym mha bethau yn arbennig y gwelir gogoniant Duw?

Rhuf. 1:20;

Salm 19:1

1.) Gwelir gogoniant Duw yn y greadigaeth: “Yn wir, er pan greodd Duw y byd, y mae ei briodoleddau anweledig ef, ei dragwyddol allu a'i dduwdod, i'w gweld yn eglur gan y deall yn y pethau a greodd.”

#167

Actau 14:17;

Rhufeiniaid
11:33

(2.) Gwelir ef yn ogoneddus yn ei ragluniaethau dirgel, yn trefnu ac yn cynnal pob peth yn anfeidrol ddoeth a da: “Ac eto ni adawodd ei hun heb dyst, gan iddo gyfrannu bendithion: rhoi glaw ichwi o'r nef, a thymhorau ffrwythlon, a chyflawnder calon o luniaeth a llawenydd.”

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#167

Rhufeiniaid
7:12

(3.) Mae'r gyfraith yn gosod allan ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd pur: "Gan hynny, y mae'r Gyfraith yn sanctaidd, a'r gorchymyn yn sanctaidd a chyfiawn a da."

#167

2 Corinthiaid
4:6

4.) Ond yn wyneb Iesu Grist y gwelir holl briodoleddau Duw yn disgleirio gyda gogoniant anghymarol: "Oherwydd y Duw a ddywedodd, 'Llewyrched goleuni o'r tywyllwch', a lewyrchodd yn ein calonnau i roi i ni oleuni'r wybodaeth am ogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist."

#168

Pa briodoleddau sy'n ymddangos yn ogoneddus yn wyneb Iesu Grist?

Priodoleddau y Duwdod i gyd, ond, yn fwyaf arbennig:

1 Ioan 4:9

(1.) Ei gariad rhad tragwyddol: "Yn hyn y dangoswyd cariad Duw tuag atom: bod Duw wedi anfon ei unig Fab i'r byd er mwyn i ni gael byw drwyddo ef."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#168

Effesiaid 3:10

(2.) Dyfnder golud doethineb Duw, yn trefnu'r fath ffordd anrhydeddus iddo'i hun, a manteisiol i ninnau: "Er mwyn i ysblander amryfal ddoethineb Duw gael ei hysbysu yn awr, trwy'r eglwys, i'r tywysogaethau a'r awdurdodau yn y nefolion leoedd."

#168

Eseia 53:5, 10

(3.) Ei sancteiddrwydd pur a'i gyfiawnder anfeidrol, yn cosbi pechod mor llym ar ei Fab ei hun: "archollwyd ef am ein troseddau ni, a'i ddryllio am ein camweddau ni; roedd pris ein heddwch ni arno ef, a thrwy ei gleisiau ef y cawsom ni iachâd. - Yr ARGLWYDD a fynnai ei ddryllio a gwneud iddo ddiodef."

#169

Sut mae golwg ar ogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist yn ein newid i'r un ddelw?

1 Ioan 4:19

(1.) Trwy edrych ar gariad Duw, yn wyneb Iesu Grist, mae'r Ysbryd Glân yn tywallt cariad Duw yn ein calonnau: "Yr ydym ni'n caru, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#169

Effesiaid 4:32

Mathew 6:14, 18, 35
Mathew 5:44-45

Marc 11:25

(2.) Mae golwg ar drugaredd faddeuol Duw yn rhoi ysbryd maddeugar i ni: “Byddwch yn dirion wrth eich gilydd; yn dyner eich calon, yn maddau i’ch gilydd fel y maddeuodd Duw yng Nghrist i chwi.”

#169

Sechereia
12:10

3.) Mae golwg ar sancteiddrwydd a chyfiawnder Duw, yn casáu ac yn cosbi pechod yn ddiarbed ar ei Fab ei hun, yn ein llanw ni â’r casineb mwyaf at bechod: “A thywalltaf ar linach Dafydd ac ar drigolion Jerwsalem ysbryd gras a gweddïau, ac edrychant ar yr un a drywanwyd ganddynt, a galaru amdano fel am uniganeidig, ac wylu amdano fel am gyntafanedig.”

#170

Beth arall mae’r Ysbryd Glân yn gwneud i’r rhai a sancteiddiwyd?

Ioan 14:16

(1.) Mae’n eu diddanu yn eu holl dristwch: “Ac fe ofynnaf finnau i’m Tad, ac fe rydd ef i chwi Eiriolwr [neu Ddiddanydd] arall i fod gyda chwi am byth.”

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#170

Rhufeiniaid
8:16

(2.) “Y mae’r Ysbryd ei hun yn cyd-dystiolaethu â’n hysbryd ni, ein bod yn blant i Dduw.”

#170

Effesiaid 1:13
Effesiaid 4:30

(3.) Mae’n eu selio, a thrwy hynny yn cryfhau eu ffydd a’u hymroddiad i Dduw: “A chwithau, wedi ichwi glywed gair y gwirionedd, Efengyl eich iachawdwriaeth, ac wedi ichwi gredu ynddo, gosodwyd arnoch yng Nghrist sêl yr Ysbryd Glân, yr hwn oedd wedi ei addo.”

#170

Effesiaid 1:14;
2 Cor. 1:22

(4.) Mae EFE ynddynt yn ernes o’u hetifeddiaeth dragwyddol: “Yr Ysbryd hwn yw’r ernes o’n hetifeddiaeth, nes ein prynu’n rhydd i’w meddiannu’n llawn, er clod i ogoniant Duw.”

#170

Rhuf. 8:26
Sech. 12:10

(5.) Mae’n Ysbryd gras a gweddïau ynddynt, ac yn erfyn trostynt ag ocheneidiau sydd y tu hwnt i eiriau: “Yn yr un modd, y mae’r Ysbryd yn ein cynorthwyo yn ein gwendid. Oherwydd ni wyddom ni sut y dylem weddïo, ond y mae’r Ysbryd ei hun yn ymbil trosom ag ocheneidiau y tu hwnt i eiriau.”

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#170

Rhuf. 8:14;
Galatiaid 5:18

(6.) Mae'n eu cynorthwyo ac yn eu harwain; "Y mae pawb sy'n cael eu harwain gan Ysbryd Duw yn blant Duw."

#170

Ioan 14:26
Ioan 16:13
Effeisiaid 2:18.

(7.) Mae'n eu dysgu yn holl wirioneddau'r efengyl: "Ond bydd yr Eiriolwr, yr Ysbryd Glân, a anfonad'r Tad yn fy enw i, yn dysgu popeth ichwi, ac yn dwyn ar gof ichwi y cwbl a ddywedais i wrthyh. - Fe'ch arwain chwi yn yr holl wirionedd. - Oherwydd trwyddo ef y mae gennym ni ein dau ffordd i ddod, mewn un Ysbryd, at y Tad."

#170

Effeisiaid 3:16

(8.) Mae'n eu bywhau ac yn eu cadarnhau gyda nerth mewnol i ddioddef a gwneud ewyllys Duw ym mhob peth: "Ar iddo ganiatáu i chwi, yn ôl cyfoeth ei ogoniant, gryfder a nerth mewnol trwy'r Ysbryd."

#170

Rhuf. 8:11

(9.) Mae'n bywhau eu cyrff, ac fe fydd yn eu hatgyfodi i ogoniant yn y dydd olaf: "Os yw Ysbryd yr hwn a gyfododd Iesu oddi wrth y meirw yn cartrefu ynoch, bydd yr hwn a gyfododd Grist oddi wrth y meirw yn rhoi bywyd newydd hefyd i'ch cyrff marwol chwi, trwy ei Ysbryd, sy'n ymgartrefu ynoch chwi."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#171 Sut mae'r Ysbryd Glân yn gweithio yn ei bobl?

2 Cor. 10:4-5
Eff. 1:19-20

(1.) Mae'n gweithio gyda nerth anorchfygol: "Canys nid arfau gwan y cawd yw arfau ein milwriaeth ni, ond rhai nerthol Duw sy'n dymchwel cestyll. Felly yr ydym yn dymchwel dadleuon dynol, a phob ymhoiad balch sy'n ymgodi yn erbyn yr adnabyddiaeth o Dduw, ac yn cymryd pob meddwl yn garcharor i fod yn ufudd i Grist."

#171 Ioa 3:8
1 Cor. 12:11
Exod. 33:19
Rhuf. 9:15

(2.) Mae'n gweithio'n rhydd, yn ôl ei ewylllys ei hun: "Y mae'r gwynt yn chwythu lle y myn, ac yr wyt yn clywed ei sŵn, ond ni wyddost o ble y mae'n dod nac i ble y mae'n mynd. Felly y mae gyda phob un sydd wedi ei eni o'r Ysbryd."

#171 Salm 51:12

(3.) Mae'n gweithio'n rhad, heb ddim ynom ni yn ei gymell: "Dyro imi eto orfoledd dy iachawdwriaeth, a chynysgaedda fi ag ysbryd ufudd."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#172

Beth yw ein dyletswydd yn wyneb y gwirioneddau yma?

Luc 11:13

(1.) Gweddïo am yr Ysbryd Glân: “Am hynny, os ydych chiwi, sy’n ddrwg, yn medru rhoi rhoddion da i’ch plant, gymaint mwy y rhydd y Tad nefol yr Ysbryd Glân i’r rhai sy’n gofyn ganddo?”

#172

Ioan 4:24

(2.) Addoli Duw yn yr Ysbryd: “Ysbryd yw Duw, a rhaid i’w addolwyr ef addoli mewn ysbryd a gwirionedd.”

#172

Rhuf.
8:4, 5

(3.) Byw yn ôl yr Ysbryd, â’n bryd ar bethau’r Ysbryd: “Gwnaeth hyn er mwyn i ofynion cyfiawn y Gyfraith gael eu cyflawni ynom ni, sy’n byw, nid ar wastad y cnawd, ond ar wastad yr Ysbryd. Oherwydd y sawl sydd â’u bodolaeth ar wastad y cnawd, ar bethau’r cnawd y mae eu bryd; ond y sawl sydd ar wastad yr Ysbryd, ar bethau’r Ysbryd y mae eu bryd.”

#172

Effesiaid
4:30

(4.) Peidio â chythruddo a thristâu’r Ysbryd Glân: “Peidiwch â thristâu Ysbryd Glân Duw, yr Ysbryd y gosodwyd ei sêl arnoch ar gyfer dydd eich prynu’n rhydd.”

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#172

2 Cor. 9:15; 1
Thes. 5:18.

(5.) Cydnabod yr Ysbryd yn ddiolchgar yn ei holl roddion, ei gynorthwyon, a'i gysuron: "Diolch i Dduw am ei rodd anhraethadwy."

#172

1 Thes. 5:19

(6.) Peidio â diffodd yr Ysbryd yn ei gynhyrfiadau sanctaidd, ond yn hytrach ufuddhau iddo o barodrwydd meddwl: "Peidiwch â diffodd yr Ysbryd."

#173

Beth yw ffrwyth yr Ysbryd?

Galatiaid
5:22-23

"Ond ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder, hunanddisgyblaeth. Nid oes cyfraith yn erbyn rhinweddau fel y rhain."

#174

A all unrhywun ddwyn y ffrwyth yma heb fod yr Ysbryd Glân yn byw ynddynt?

2 Tim. 3:5

(1.) Gall fod rhywbeth tebyg, heb fod yn wir ffrwyth; rhai sy'n "cadw ffurf allanol crefydd ond yn gwadu ei grym hi."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#174

Mathew 7:18

2.) Gall fod doniau'r Ysbryd, ond ni all fod ffrwyth da heb wreiddyn da i'w dwyn: "Ni all coeden dda ddwyn ffrwyth drwg, na choeden wael ffrwyth da."

#175

Beth yw ffrwythau'r cnawd?

Galatiaid
5:19-21

"Y mae gweithredoedd y cnawd yn amlwg, sef puteindra, amhurdeb, anlladrwydd, eilunaddoliaeth, dewiniaeth, cweryla, cynnen, eiddigedd, llidio, ymgiprys, rhwygo, ymbleidio, cenfigennu, meddwi, cyfeddach, a phethau tebyg. Yr wyf yn eich rhybuddio, fel y gwneuthum o'r blaen, na chaiff y rhai sy'n gwneud y fath bethau etifeddu teyrnas Dduw."

#176

A all y rhai sydd yn gwneud y cyfryw bethau fod yn gadwedig?

Galatiaid
5:21

Na allant, heb eu newid: "Yr wyf yn eich rhybuddio, fel y gwneuthum o'r blaen, na chaiff y rhai sy'n gwneud y fath bethau etifeddu teyrnas Dduw."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#177

Ydy'r rhai a newidiwyd gan yr Ysbryd Glân yn gwbl rydd oddi wrth y cnawd a'i ffrwythau?

Gal. 5:17

Maent yn rhydd o'i lywodraeth, ond nid o'i fodolaeth na'i weithrediadau: "Oherwydd y mae chwantau'r cnawd yn erbyn yr Ysbryd, a chwantau'r Ysbryd yn erbyn y cnawd. Y maent yn tynnu'n groes i'w gilydd, fel na allwch wneud yr hyn a fynnwch."

#178

Beth sy'n dod yn amlwg fel prawf eglur o'n hadnewyddiad gan yr Ysbryd Glân?

Ioan 14:15;
1 Pedr 1:2.

Ufudd-dod parod i holl orchmynion Duw: "Os ydych yn fy ngharu i," medd Crist, "fe gadwch fy ngorchmynion i."

#179

Sut syrthiodd dyn?

Rhuf. 5:19

Trwy anufudd-dod: "Gwnaethpwyd y llawer yn bechaduriaid trwy anufudd-dod un dyn."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#180

Sut caiff pechadur ei gyfiawnhau o flaen Duw?

Rhufeiniaid
4:25

Trwy ufudd-dod a marwolaeth Crist drosto: "Cafodd ef ei draddodi i farwolaeth am ein camweddau, a'i gyfodi i'n cyfiawnhau ni."

#181

I beth mae'r Ysbryd yn adnewyddu pechadur?

Rhufeiniaid
6:17
Titus 2:14

I ufudd-dod calon ac ewyllysgar: "Ond, diolch i Dduw, yr ydych chiwi, a fu'n gaethion i bechod, yn awr wedi rhoi ufudd-dod calon i'r patrwm hwnnw o athrawiaeth y traddodwyd chiwi iddo."

#182

Pa reol o ufudd-dod rhoddodd Duw i ni?

Ioan 14:15
2 Tim. 3:16-17

Ei ewyllys ddatguddiedig, yn enwedig ei gyfraith sanctaidd: "Os ydych yn fy ngharu i, fe gadwch fy ngorchmynion i."



#183

Beth yw Cyfraith Duw?

Deut. 4:13

Exod. 31:18

Y Deg Gorchymyn a roddwyd i Israel ar fynydd Sinai: "Mynegodd i chwi ei gyfamod, sef y deg gorchymyn yr oedd yn eu gorchymyn i chwi eu cadw, ac ysgrifennodd hwy ar ddwy lechen."

#184

Oedd Duw wedi rhoi'r gyfraith o'r blaen i ddyn?

Gen. 2:17

Oedd, roedd wedi ei rhoi yng nghalonau ein rhieni cyntaf cyn y cwmp.

#185

Pam rhoddwyd y gyfraith i ddyn wedi'r cwmp?

Hosea 13:4
Exod. 20:1-2

(1.) I ddangos awdurdod cyfiawn Duw i ofyn ufuddod, er bod dyn wedi anufuddhau: "Myfi yw'r ARGWYDD dy Dduw, a'th ddygodd o wlad yr Aifft; nid adwaenit Dduw heblaw myfi, ac nid oedd achubydd ond myfi."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#185

Rhuf. 5:20

(2.) Nid er mwyn i ni cael bywyd trwyddi, ond i ddangos ein bod wedi colli ein bywyd trwy bechod: "Daeth y Gyfraith i mewn, er mwyn i drosedd amlhau."

#185

Gal. 3:24

(3.) Bu'r gyfraith, trwy ddangos bod yn rhaid cael cyfryngwr, yn was i warchod trosom hyd nes i Grist ddod.

#185

Jos. 22:5
Mat. 5:17
1 Cor. 9:21
Deut. 6:6-7,17 a 11:22.

(4.) I fod yn rheol bywyd sanctaidd: "Byddwch yn ofalus iawn i gadw'r gorchymyn a'r gyfraith... i garu'r ARGLWYDD eich Duw, a cherdded yn ei holl lwybrau, i gadw ei orchmynion, a glynu wrtho a'i wasanaethu â'ch holl galon ac â'ch holl enaid."

#186

Beth yn arbennig dylwn nodi am y Deg Gorchymyn?

Deut. 27:10
2 Bren. 17:37

(1.) Awdurdod Duw ynddynt, yn ein rhwymo i ufudd-dod: "Yr wyt i wrando ar lais yr ARGLWYDD dy Dduw a chadw ei orchmynion a'i ddeddfau."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#186

Rhufeiniaid
7:14

(2.) Eu bod yn rhwymo'r holl berson - gorff ac enaid - i ufudd-dod, neu i gosb am anufudd-dod: "Gwyddom, yn wir, fod y Gyfraith yn perthyn i fyd yr Ysbryd."

#186

Salm 119:96

(3.) Pa mor bell-gyrhaeddol mae'r gorchmynion o ran eu hystyr: "Gwelaf fod popeth yn dod i ben, ond nid oes terfyn i'th orchmyn di."

#186

Iago 2:10

(4.) Bod awdurdod Duw ym mhob un gorchmyn, fel na ellir torri un heb dorri'r cwbl: "Y mae pwy bynnag a gadwodd holl ofynion y Gyfraith, ond a lithrodd ar un peth, yn euog o dorri'r cwbl."

#186

(5.) Eu bod yn gorchmyn ein bod yn cyflawni pob dyletswydd gwrthwyneb i'r pechodau a caiff eu gwahardd ynddynt, ac yn gwahardd pob pechod croes i'r dyletswyddau a orchmynnir ynddynt.

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#187

Beth yn fwyaf arbennig mae'r gyfraith yn dangos i ni?

Gwelir yn y gyfraith, fel mewn drych:

Rhuf. 7:12;
1 Tim. 1:8

(1.) Sancteiddrwydd, cyfiawnder a daioni anfeidrol Duw: "Y mae'r Gyfraith yn sanctaidd, a'r gorchymyn yn sanctaidd a chyfiawn a da."

#187

Salm
19:11-13;
Rhuf. 7:7

(2.) Llygriad lwyr ac euogrwydd dyn: "Trwyddynt hwy hefyd rhybuddir fi, ac o'u cadw y mae gwobr fawr. Pwy sy'n dirnad ei gamgymeriadau? Glanha fi oddi wrth fy meiau cudd. Cadw dy was oddi wrth bechodau beiddgar, rhag iddynt gael y llaw uchaf arnaf."

#187

Rhuf. 10:4
Rhuf. 5:19

(3.) Perffeithrwydd cyfiawnder Crist mewn ufuddod i'r ddeddf dros ei bobl: "Oherwydd Crist yw diwedd y Gyfraith, ac felly, i bob un sy'n credu y daw cyfiawnder Duw."

#187

Hebreaid 8:10

(4.) Natur gwaith yr Ysbryd Glân ar galon pechadur, yn ei barotoi i ogoniant: "Dyma'r cyfamod a wnaif â thŷ Israel ar ôl y dyddiau hynny, medd yr Arglwydd: rhof fy nghyfreithiau yn eu meddwl, ac ysgrifennaf hwy ar eu calon. A byddaf yn Dduw iddynt, a hwythau'n bobl i mi."



#188

Beth yw swm y gyfraith?

Mathew
22:37-40

Cariad; sef caru Duw â'n holl galon, a'n cymydog fel ni ein hunain: "Dywedodd Iesu wrtho, "Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl." Dyma'r gorchymyn cyntaf a'r pwysicaf. Ac y mae'r ail yn debyg iddo: "Câr dy gymydog fel ti dy hun." Ar y ddau orchymyn hyn y mae'r holl Gyfraith a'r proffwydi yn dibynnu."

#189

Pam ddylem ni garu Duw?

1 Ioan 4:8, 16

(1.) Oblegid ei hawddgarwch anfeidrol ynddo'i hun: "Y sawl nad yw'n caru, nid yw'n adnabod Duw, oherwydd cariad yw Duw."

#189

1 Ioan 4:19
Ioan 15:9

(2.) Oblegid ei gariad ef i ni: "Yr ydym ni'n caru, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni."



#190

Pwy yw'r rhai sy'n caru Duw?

Exodus 20:3

(1.) Y rhai sy'n gweld yn Nuw y fath ogoniant a chyflawnder, fel eu bod yn ei ddewis ef yn gyfran, etifeddiaeth ac Arglwydd iddynt am byth, yn ôl y gorchymyn cyntaf: "Na chymer dduwiau eraill ar wahân i mi."

#190

Exodus 20:4-6

2.) Y rhai sy'n addoli Duw'n ddyfal, mewn ysbryd a gwirionedd, yn ôl meddwl Duw ei hun, ac nid yn ôl eu dychymyg eu hunain, yn ôl yr ail orchymyn: "Na wna iti ddelw gerfiedig."

#190

Exodus 20:7

(3.) Y rhai sydd, yn eu holl ymddygiad, yn anrhydeddu Duw, ei enw, ei ogoniant a'i achos yn eu calonnau, yn ôl y trydydd gorchymyn: "Na chymer enw'r ARGLWYDD dy Dduw yn ofer."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#190

Exodus 20:8

(4). Y rhai sydd yn gydwybodol neilltuo rhan o'u hamser, yn enwedig y Saboth, i addoli Duw yn gyhoeddus, ac i ddwyn ei achos ymlaen yn eu calonnau ac yn y byd, yn ôl y pedwerydd gorchymyn: "Cofia'r dydd Saboth, i'w gadw'n gysegredig."

#191

Pam dylem ni garu ein cymydog fel ni ein hunain?

Gal. 5:14
Lef. 19:18
Mat. 22:39

(1.) Am fod gorchymyn Duw yn hawlio hynny: "Oherwydd y mae'r holl Gyfraith wedi ei mynegi'n gyflawn mewn un gair, sef yn y gorchymyn, 'Câr dy gymydog fel ti dy hun'."

#191

1 Cor. 4:7

(2.) Am fod ein cymydog yn haeddu ei garu gymaint â ni'n hunain: "Pwy sy'n rhoi rhagoriaeth i ti? Beth sydd gennyt, nad wyt wedi ei dderbyn? Ac os ei dderbyn a wnaethost, pam yr wyt yn ymffrostio fel pe bait heb dderbyn?"

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#192

A ddylem ni garu pawb yr un fath?

Mathew 5:44

(1.) Dylem garu pawb â chariad o ewyllys da, hyd yn oed ein gelynion: “Ond rwyf fi’n dweud wrthyhch: carwch eich gelynion, a gweddiwch dros y rhai sy’n eich erlid.”

#192

Gala 6:10
Salm 15:2-3
Salm 16:4

(2.) Dylem ddangos anwyldeb arbennig i rai: “Gadewch inni wneud da i bawb, ac yn enwedig i’r rhai sydd o deulu’r ffydd.”

#193

Ydy’r Ysbryd Glân yn adnewyddu calon pob person sy’n dduwiol i gariad at Dduw a’i gymydog?

Rhuf. 5: 5
1 Thes. 4:9
Ioan 15:12, 17

Ydy; mae’n tywallt cariad Duw yn eu calonnau – ac yn eu dysgu i garu ei gilydd.

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#194

Pwy yw'r rhai sy'n caru eu cymdogion fel nhw eu hunain?

Exod 20: 12;
Rhuf. 13:7.

(1.) Y rhai sy'n caru, anrhydeddu, ac ufuddhau i'w rhieni; yn ymddwyn yn ostyngedig, gan barchu pawb o'u gwell, yn ôl y pumed gorchymyn:2 "Anrhydedda dy dad a'th fam, er mwyn amlhau dy ddyddiau yn y wlad y mae'r ARGLWYDD yn ei rhoi iti."

#194

Mathew 5: 22

(2.) Y rhai nad ydynt yn casáu person eu cymdog, nac yn ei niweidio ar air na gweithred, ond yn ceisio ei les a'i ddedwyddwch mewn corff ac enaid, yn ôl y chweched gorchymyn: "Na ladd. Bydd pob un sy'n ddig wrth ei frawd yn atebol i farn."

#194

Mathew 5:28

(3.) Yr rhai nad ydynt yn halogi eu hun, nac yn foddion trwy air na gweithred i halogi diweirdeb eu cymdog, yn ôl y seithfed gorchymyn: "Na odineba. Pob un sy'n edrych mewn blys ar wraig eisoes wedi cyflawni godineb â hi yn ei galon."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#194

Philipiaid 2:4;

1 Cor. 13:5

(4.) Y rhai nad ydynt yn niweidio eu cymydog, ond yn ceisio'i les yn ei feddiannau bydol, fel yr eiddynt eu hunain, yn ôl yr wythfed gorchymyn: "Na ladrata. Bydded gofal gan bob un ohonoch, nid am eich buddiannau eich hunain yn unig ond am fuddiannau pobl eraill hefyd."

#194

Diarhebbion
12:17

Diarhebbion
19:5

(5.) Y rhai sy'n tystiolaethu'r gwir wrth eu cymydog, ac am eu cymydog, yn ôl y nawfed gorchymyn: "Na ddwg gamdystiolaeth yn erbyn dy gymydog."

#194

Exodus 20:17

(6.) Y rhai sy'n fodlon ar eu sefyllfa eu hunain, ac yn gwyllo'u calonnau rhag chwennych dim yn bechadurus sy'n eiddo i eraill; ond yn dysgu i lafurio'n gywir, i geisio ennill eu bywoliaeth, ym mha bynnag alwedigaeth y rhyngo bodd i Dduw eu galw, yn ôl y degfed gorchymyn: "Na chwennych dŷ dy gymydog, na'i wraig, na'i was, na'i forwyn, na'i ych, na'i asyn, na dim sy'n eiddo i'th gymydog."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#195

A all Ysbryd Duw weithio ar enaid person mewn gwirionedd heb i gariad fod yna?

1 Cor. 13:1, 2
1 Ioan 4:8

Na all: "Os llefaraf â thafodau meidrolion ac angylion ... ac os wyf yn gwybod y dirgelion i gyd, a phob gwybodaeth ... a heb fod gennyf gariad, nid wyf ddim."

#196

Sut dylem ni garu Duw?

Luc 10:27
Deut. 6:5

Â'n holl galon, â'n holl enaid, â'n holl feddwl, ac â'n holl nerth: "Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl nerth ac â'th holl feddwl."

#197

Ydy Duw'n haeddu i ni ei garu â'n holl galon?

Neh. 9:5

Ydy; mae'n "ddyrchafedig goruwch pob bendith a moliant."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#198

A yw'n bechod i ni beidio caru Duw â'n holl galon?

Luc 11:42

Ydy, yn bechod mawr iawn: "Ond gwae chwi'r Phariseaid, oherwydd yr ydych yn talu degwm o fintys a rhyw a phob llysieuyn, ond yn diystyru cyfiawnder a chariad Duw.

#199

Pryd dylem garu Duw?

1 Cor. 13:8

Bob amser, ac am byth: "Nid yw cariad yn darfod byth."

#200

A all unrhywun gadw'r gyfraith hon yn berffaith?

Rhuf. 7:14
Rhuf. 8:7

Na all: "Gwyddom, yn wir, fod y Gyfraith yn perthyn i fyd yr Ysbryd. Ond perthyn i fyd y cnawd yr wyf fi, un sydd wedi ei werthu yn gaethwas i bechod."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#201

Ydy'n hanallu ni i ufuddhau iddi'n bechod?

Rhuf. 8:7
Rhuf. 1:30
Titus 3:3

Ydy: am mai ein gelyniaeth yn erbyn Duw a dyn yw ein hanallu, ac mae hyn yn bechod mawr iawn: "Oherwydd y mae bod â'n bryd ar y cnawd yn elyniaeth tuag at Dduw; nid yw hynny, ac ni all fod, yn ddarostyngiad i Gyfraith Duw."

.....
.....

#202

A all y gyfraith gael ei diddymu neu ei newid?

Mat 5:17-18
Luc 16:17

Na all, mwy na ellir gwneud cyfiawnder yn anghyfiawnder, a sancteiddrwydd yn halogediggaeth: "Yn wir, rwy'n dweud wrthyich, hyd nes i nef a daear ddarfod, ni dderfydd yr un llythyren na'r un manylyn lleiaf o'r Gyfraith nes i'r cwbl ddigwydd."

.....
.....

#203

Sut cawn ein gwared o felltithion y gyfraith?

Galatiaid 3:13;
Rhuf. 10:4.

Trwy ffydd yng Nghrist yn unig: "Prynodd Crist ryddid i ni oddi wrth felltith y Gyfraith."

.....
.....
.....

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#204 Sut cawn ni galonnau i garu Duw, a ninnau wrth naturiaeth yn elynion iddo?

Rhufeiniaid. 5:5

Mae'r Ysbryd Glân yn tywallt cariad Duw yng nghalonnau'r rhai sydd yn credu yng Nghrist: "A dyma obaith na chawn ein siomi ganddo, oherwydd y mae cariad Duw wedi ei dywallt yn ein calonnau trwy'r Ysbryd Glân y mae ef wedi ei roi i ni."

#205 Sut mae'r Ysbryd Glân yn tywallt cariad Duw yn ein calonnau?

Deut. 30:6

(1.) Trwy enwaedu'r galon, a darostwng yr elyniaeth ynom: "Bydd yr ARGLWYDD dy Dduw yn enwaedu dy galon, a chalonnau dy ddisgynyddion, er mwyn iti garu yr ARGLWYDD dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid, fel y byddi fyw."

#205 (2.) Trwy amlygu cariad Duw yng Nghrist i bechaduriaid: "Boed i chwi, sydd â chariad yn wreiddyn a sylfaen eich bywyd, gael eich galluogi i amgyffred ynghyd â'r holl saint beth yw lled a hyd ac uchder a dyfnder cariad Crist, a gwybod am y cariad hwnnw, er ei fod uwchlaw gwybodaeth. Felly dygir chwi i gyflawnder, hyd at holl gyflawnder Duw."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#205

Can. 1:3-4
Ioan 8:10
Ioan 8:42
1 Ioan 4:7

(3.) Trwy ennyn cariad ynom tuag at Dduw, yr hwn a'n carodd ni mor fawr: "[Mae] arogl dy bersawr yn hyfryd, a'th enw fel persawr wedi ei wasgaru; dyna pam y mae merched yn dy garu."

#206

Ym mha ffurf rhoddwyd y Deg Gorchymyn?

Rhuf. 14:12

(1.) Mewn ffurf unigol, wrth bob person ar ei ben ei hun: a bydd yn rhaid i bob un roddi cyfrif i Dduw am bob trosedd: "Am hynny, bydd rhaid i bob un ohonom roi cyfrif amdanom ni'n hunain i Dduw."

#206

(2.) Mewn ffordd negyddol, gan fwyaf, i wahardd pechodau, a dangos ein tueddiad cryf i bechod

#206

(3.) Wedi eu hysgrifennu ar ddwy lechen: ein dyletswydd i Dduw ar y llechen gyntaf, yn y pedwar gorchymyn cyntaf; a'n dyletswydd at ein cymydog ar yr ail lechen, yn y chwe gorchymyn olaf

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#207 Yn erbyn pa elynion mae'n rhaid i bob gwir Gristion frwydro?

Effesiaid 6:12

Galatiaid 5:24

Iago 4:7

Y byd, y cnawd, a'r diafol: "Nid â meidrolion [yn unig] yr ydym yn yr afael, ond â thywysogaethau ac awdurdodau, â llywodraethwyr tywyllwch y byd hwn, â phwerau ysbrydol drygionus yn y nefolion leoedd."

#208 Beth yw ystyr "y byd"?

1 Ioan 2:16

Iago 4:4

Popeth sydd yn y byd, cyn belled ag y maent yn ein pellhau oddi wrth Dduw, ac yn ein rhwystro yn ei waith: "Oherwydd y cwbl sydd yn y byd - trachwant y cnawd, a thrachwant y llygaid, a balchder mewn meddiannau - nid o'r Tad y mae, ond o'r byd."

#209 Beth yw ystyr "y cnawd"?

Rhufeiniaid 7:5

Y natur bechadurus sydd, dan y cwmp, yn gweithredu ac yn llywodraethu ym mhawb: "Pan oeddem yn byw ym myd y cnawd, yr oedd y nwydau pechadurus, a ysgogir gan y Gyfraith, ar waith yn ein cyneddfau corfforol, yn peri i ni ddwyn ffrwyth i farwolaeth."



#210

Beth yw ystyr “y diafol”?

Jwdas 6

Ysbryd aflan syrthiedig sydd yn gwrthryfela yn erbyn Duw: “Cofiwch yr angylion hefyd, y rhai a wrthododd gadw o fewn terfynau eu llywodraeth ac a gefnodd ar eu trigfan eu hunain, iddo ef eu cadw hwy yn y tywyllwch mewn cadwynau tragwyddol, i aros barn y Dydd mawr.”

#211

Sut gallwn ni orchfygu'r gelynion hyn?

Ioan 16:33
Rhuf 8:3
Rhuf 16:20

(1.) Trwy ffydd yng Nghrist, a orchfygodd y byd, ysigo pen y sarff, a cholffarnu pechod yn y cnawd: “Codwch eich calon,” medd Crist, “yr wyf fi wedi gorchfygu'r byd. – Yr hyn oedd y tu hwnt i allu'r Gyfraith, yn ei gwendid dan gyfyngiadau'r cnawd, y mae Duw wedi ei gyflawni. Wrth anfon ei Fab ei hun, mewn ffurf debyg i'n cnawd pechadurus ni, i ddelio â phechod, y mae wedi collfarnu pechod yn y cnawd. – A buan y bydd Duw yr heddwch yn malu Satan dan eich traed.”

#211

Rhuf 8:13
Rhuf 6:13
1 Thes 5:22

(2.) Trwy osgoi pob achlysur o bechod: “Oherwydd, os ar wastad y cnawd yr ydych yn byw, yr ydych yn sicr o farw; ond os ydych, trwy'r Ysbryd, yn rhoi arferion drwg y corff i farwolaeth, byw fyddwch.”

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#211

1 Cor 9:27
Luc 21:34-36

(3.) Trwy fyw'n gymhedrol a gwylidwrus bob dydd: "Yr wyf yn cernodio fy nghorff, ac yn ei gaethiwo, rhag i mi, sydd wedi pregethu i eraill, fy nghael fy hun yn wrthodedig."

#211

(4.) Trwy ymarfer moddion gras yn ddyfal.

#212

Pa wahaniaeth sydd rhwng ymdrech gras yn erbyn pechod, a chyhuddiadau

Gal. 5:24

Nid yw cydwybod yn gwneud dim ond condemnio pechod; ond y mae gwir ras yn ei farwhau: "Y mae pobl Crist Iesu wedi croeshoelio'r cnawd ynghyd â'i nwydau a'i chwantau."

#213

A ydy pob un o blant Duw yn gorchfygu'r gelynyion hyn?

Rhuf. 8:37

Ydynt: "Yn y pethau hyn i gyd y mae gennym fuddugoliaeth lwyr trwy'r hwn a'n carodd ni."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#214

Beth yw'r ordinhadau a'r moddion gras a roddodd Crist i ni eu hymarfer?

Ioan 5:39

Eseia 55:3

1.) Gwrando ar air Duw a chwilio'r ysgrythyrau: "Yr ydych yn chwilio'r Ysgrythurau oherwydd tybio yr ydych fod ichwi fywyd tragwyddol ynddynt hwy. Ond tystiolaethu amdanaf fi y mae'r rhain. - Gwrandewch arnaf, dewch ataf; clywch, a byddwch fyw."

#214

Hebreaid 4:16
Effesiaid 6:18

(2.) Gweddïo'n ddyfal: "Felly, gadewch inni nesáu mewn hyder at orsedd gras, er mwyn derbyn trugaredd a chael gras yn gymorth yn ei bryd. - Ymrowch i weddi ac ..."

#214

3.) Cyfranogi o'r sacramentau'n barchus a ffyddiog.

#215

Sut ydym i weddïo?

Judas 20
Effesiaid 6:18

(1.) Yn yr Ysbryd: "Ond rhaid i chwi, gyfeillion annwyl, eich adeiladu eich hunain ar sylfaen eich ffydd holl-sanctaid, a gweddïo yn yr Ysbryd Glân."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#215

Iago 1:6

(2.) Mewn ffydd: "Ond gofynned mewn ffydd, heb amau, gan fod y sawl sy'n amau yn debyg i don y môr, sy'n cael ei chwythu a'i chwalu gan y gwynt."

#215

Actau 12: 5
1 Thes. 5:17
Luc 18:1

(3.) Yn ddyfal: "Ond yr oedd yr eglwys yn gweddïo'n daer ar Dduw ar ei ran.
- Gweddïwch yn ddi-baid."

#216

Yn enw pwy yr ydym i weddïo?

Ioan 16:23
Ioan 14:18

Yn enw Iesu Grist: "Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthyich, beth bynnag a ofynnwch gan y Tad yn fy enw i, bydd ef yn ei roi ichwi."

#217

Ydy'r Ysbryd yn ein cynorthwyo ni i weddïo?

Rhuf. 8:26

Ydy: "Yn yr un modd, y mae'r Ysbryd yn ein cynorthwyo yn ein gwendid. Oherwydd ni wyddom ni sut y dylem weddïo, ond y mae'r Ysbryd ei hun yn ymbil trosom ag ocheneidiau y tu hwnt i eiriau."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#218

Pa sicrwydd sydd gennym y bydd Duw yn gwranddo ar ein gweddïau?

Mathew 1:7

Mae addewid Duw yn sicrhau hynny: "Gofynnwch, ac fe roddir i chwi; ceisiwch, ac fe gewch; curwch, ac fe agorir i chwi."

#219

Am beth dylem ni weddïo?

Salm 84:11
2 Pedr 1:3
1 Ioan 5:14

Am bopeth sy'n ymwneud â bywyd a duwioldeb ac sydd wedi eu haddo gan Dduw yn ei air: "Oherwydd haul a tharian yw'r ARGLWYDD Dduw; rhydd ras ac anrhydedd. Nid atal yr ARGLWYDD unrhyw ddaioni oddi wrth y rhai sy'n rhodio'n gywir."

#220

Dros bwy dylem ni weddïo?

1 Tim. 2:1-2
Eff. 6:18

Dros bawb, yn enwedig dros yr holl saint: "Yn y lle cyntaf, felly, yr wyf yn annog bod ymbiliau, gweddïau, deisyfiadau a diolchiadau yn cael eu hoffrymu dros bawb, dros frenhinoedd a phawb sydd mewn awdurdod, inni gael byw ein bywyd yn dawel a hedychlon, yn llawn duwioldeb a gwedduster."



#221

Beth yw Gair Duw?

2 Tim 3:16

Ysgrhythrau Sanctaidd yr Hen Destament a'r Newydd: "Y mae pob Ysgrhythur wedi ei hysbrydoli gan Dduw ac yn fuddiol i hyfforddi, a cheryddu, a chywiro, a disgyblu mewn cyfiawnder."

#222

Beth yw ystyr fod yr holl ysgrhythur yn sanctaidd?

2 Pedr 1:21

(1.) Duw sanctaidd yw awdur yr holl ysgrhythur: "Ni ddaeth yr un broffwydoliaeth erioed trwy ewyllys ddynol; pobl oeddent a lefarodd air oddi wrth Dduw wrth gael eu hysgogi gan yr Ysbryd Glân."

#222

Salm 19:8-9

(2.) Mae'r holl ysgrhythur yn sanctaidd yn ei natur - mae'r gorchymynion, yr athrawiaethau, a'r addewidion i gyd yn sanctaidd: "Y mae deddfau'r ARGLWYDD yn gywir, yn llawenhau'r galon; y mae gorchymyn yr ARGLWYDD yn bur, yn goleuo'r llygaid; y mae ofn yr ARGLWYDD yn lân, yn para am byth; y mae barnau'r ARGLWYDD yn wir, yn gyfiawn bob un."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#222

Ioan 17:17

(3.) Trwy'r gair mae'r Arglwydd yn sancteiddio pechaduriaid aflan: "Cysegra hwy yn y gwirionedd. Dy air di yw'r gwirionedd."

#223

Pam dylem wrando ar y gair?

1 Thes. 2:13

(1.) Am mai gair Duw yw; ac ni all neb barchu Duw heb barchu ei air: "Yr ydym ni'n diolch i Dduw yn ddi-baid ar gyfrif hyn hefyd: eich bod chwi, wrth dderbyn gair Duw fel y clywsoch ef gennym ni, wedi ei groesawu, nid fel gair dynol ond fel yr hyn ydyw mewn gwirionedd, sef gair Duw, sydd hefyd ar waith ynoch chwi sy'n gredinwyr."

#223

Rhuf. 10:17

(2.) Am mai "o'r hyn a glywir y daw ffydd, a daw'r clywed trwy air Crist"

#223

Marc 16:15
Mat. 28. 19

(3.) Am mai trefniad dwyfol yw pregethu'r gair: "Ewch i'r holl fyd a phregethwch yr Efengyl i'r greadigaeth i gyd."

#223

Rhuf. 15: 4
Ioan 5:36
2 Tim. 3:15

(4.) Am fod y gair yn ein haddysgu yn y pethau sy'n perthyn i'n hiachawdwriaeth: "Ac fe ysgrifennwyd yr Ysgrythurau gynt er mwyn ein dysgu ni, er mwyn i ni, trwy ddyfalbarhad a thrwy eu hanogaeth hwy, ddal ein gafael yn ein gobaith."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#224

Pa sacramentau a ordeiniodd Crist yn ei eglwys?

Mat. 28:19;
Luc 22:19-20

Bedydd a Swper yr Arglwydd.

#225

Pam ordeiniodd Crist sacramentau yn ei eglwys?

Rhuf. 4:11

(1.) I fod yn arwyddion o bethau ysbrydol, i'w gwneud yn eglurach i ni: "Ac wedyn derbyniodd arwydd yr enwaediad, yn sêl o'r cyfiawnder oedd eisoes yn eiddo iddo trwy ffydd."

#225

1 Cor. 11:24

(2.) I gofio'r pethau hyn yn eglwys Crist yn wastadol.

#225

(3.) I sicrhau a chadarnhau ein ffydd, fel seliau o gyfamod Duw.

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#226

Sawl rhan sydd mewn sacrament?

Dwy; sef yr arwydd gweladwy allanol, a'r gras ysbyrdol mewnol.

.....

.....

#227

Beth yw'r arwydd allanol, neu'r ffurf, yn y Bedydd?

Mathew 28:19

Dŵr, a ddefnyddir i fedyddio un "yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbyrd Glân."

.....

.....

#228

Beth yw'r gras ysbyrdol mewnol?

Rhufeiniaid 6:4

Marwolaeth i bechod, a genedigaeth newydd i gyfiawnder: "Trwy'r bedydd hwn i farwolaeth [pechod] fe'n claddwyd gydag ef, fel, megis y cyfodwyd Crist oddi wrth y meirw mewn amlygiad o ogoniant y Tad, y byddai i ninnau gael byw ar wastad bywyd newydd."

.....

.....

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#229 Beth mae ein bedyddio yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân yn arwyddocáu?

Mathew 28:19

(1.) Ein dyled i gredu yn, ac addoli Personau'r Drindod yn undod y Duwdod; oherwydd bedyddir ni i bob un ohonynt fel ei gilydd.

#229 2 Cor. 13:13

2.) Ein proffes a'n hymorffwysiad ar drefn a gwaith y Personau Dwyfol yn unig am iachawdwriaeth: "Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân fyddo gyda chwi oll."

#229 Salm 48:14
Jer. 50:5

(3.) Ein cyflwyniad trwy gyfamod i'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân i fod yn eiddo Duw am byth: "Y mae ein Duw ni hyd byth bythoedd, fe'n harwain yn dragywydd."

#230 Oes rhaid bedyddio mwy nag unwaith?

Effesiaid 4:5-6

Nac oes: "Un Arglwydd, un ffydd, un bedydd, un Duw a Thad i bawb, yr hwn sydd goruwch pawb, a thrwy bawb, ac ym mhawb."



#231

Pam bedyddir plant bach?

Marc 10:14
Mathew 18:14

(1.) Am fod Duw mor fodlon ac ewylllysgar i'w hachub nhw a rhai sydd mewn oed: "Gadewch i'r plant ddod ataf fi; peidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas Dduw yn perthyn."

#231

(2.) Yr oedd plant yn yr eglwys o'r cyfnod cynharaf dan bob goruchwyliaeth, ac nid oes un awgrym yn y Beibl iddynt gael eu torri allan dan oruchwyliaeth yr efengyl - sy'n helaethach ei breintiau.

(3.) Maent yn wrthrychau addas o ras ac iachawdwriaeth dragwyddol

#232

Pam ordeiniwyd sacrament Swper yr Arglwydd?

1 Cor. 11:24

Er mwyn cofio am aberth a dioddefaint Crist, a derbyn y lles sydd yno: "Ac wedi iddo ddiolch, fe'i torrodd, a dweud, 'Hwn yw fy nghorff, sydd er eich mwyn chwi. Gwnewch hyn er cof amdanaf.'"

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#233

Beth yw'r arwydd gweladwy yn Swper yr Arglwydd?

Mathew
26:26-28

Bara a gwin: "Ac wrth iddynt fwyta, cymerodd lesu fara, ac wedi bendithio fe'i torrodd a'i roi i'r disgyblion, a dywedodd, 'Cymerwch, bwyteuach; hwn yw fy nghorff.' A chymerodd gwpan, ac wedi diolch fe'i rhoddodd iddynt gan ddweud, 'Yfwch ohono, bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed i, gwaed y cyfamod, a duwelltir dros lawer er maddeuant pechodau.'"

#234

Beth sy'n cael ei arwyddocáu?

1 Cor. 10:16

Corff a gwaed Crist: "Cwpan y fendith yr ydym yn ei fendithio, onid cyfranogiad o waed Crist ydyw? A'r bara yr ydym yn ei dorri, onid cyfranogiad o gorff Crist ydyw?"

#235

Pa les sydd i'w gael trwy ffydd yn yr ordinhad hon?

Ioan 6: 55-56

Cryfhau a chysuro'n heneidiau trwy gorff a gwaed Crist, fel caiff ein cyrff eu cryfhau a'u cysuro trwy'r bara a'r gwin: "Oherwydd fy nghnawd i," medd Crist, "yw'r gwir fwyd, a'm gwaed i yw'r wir ddioid. Y mae'r sawl sy'n bwyta fy nghnawd i ac yn yfed fy ngwaed i yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#236

Beth mae torri'r bara yn arwyddocáu?

Eseia 53:5

Dryllio corff Crist: "Ond archollwyd ef am ein troseddau ni, a'i ddryllio am ein camweddau ni; roedd pris ein heddwoch ni arno ef, a thrwyr ei gleisiau ef y cawsom ni iachâd."

#237

Beth mae tywalltiad y gwin yn arwyddocáu?

Mathew
20:28

Tywalltiad gwaed Crist dros ein pechodau ni, a'r iawn a wnaeth trwy hynny: "Hwn yw fy ngwaed i, gwaed y cyfamod, a dywelltir dros lawer er maddeuant pechodau."

#238

Beth mae rhoi'r elfennau i'r cymunwyr yn arwyddo?

1 Ioan 5:12

Bod Duw y Tad yn rhoi Crist, a Christ yn rhoi ei hun, i bawb a gredant ynddo: "Y sawl y mae'r Mab ganddo, y mae'r bywyd ganddo; y sawl nad yw Mab Duw ganddo, nid yw'r bywyd ganddo."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#239

Pam dylem ddod i Swper yr Arglwydd?

1 Cor. 11:24

(1.) O ufudd-dod i orchymyn Crist, a ddywedodd, "Gwnewch hyn er cof amdanaf."

#239

1 Cor. 11:26

2.) I gyffesu Crist a'i groes, a dangos ei farwolaeth fel yr unig iawn am bechod, a'n hunig obaith am iachawdwriaeth: "Oherwydd bob tro y byddwch yn bwyta'r bara hwn ac yn yfed y cwpan hwn, yr ydych yn cyhoeddi marwolaeth yr Arglwydd, hyd nes y daw."

#239

Salm 116:12-13

(3.) I ymborthi trwy ffydd ar Grist, a dangos ein cariad tuag ato, a'n diolchgarwch iddo: "Sut y gallaf dalu i'r ARGLWYDD am ei holl haelioni tuag ataf? Dyrchafaf gwpan iachawdwriaeth, a galw ar enw'r ARGLWYDD."

#239

1 Ioan 1:3

(4.) I gael cymdeithas gyda Duw yn aberth ei Fab yn yr ordinhad: "Ac yn wir, y mae ein cymundeb ni gyda'r Tad a chyda'i Fab ef, Iesu Grist."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#240

Beth ddylai'r rhai sy'n dod i Swper yr Arglwydd wneud?

Holi eu hunain:

Joel 2:12- 13
1 Cor. 11:28
Actau 3:19.

(1.) A ydynt yn wir edifeiriol am y pechodau a wnaethant: "Yn awr", medd yr ARGLWYDD, 'dychwelwch ataf â'ch holl galon, ag ymryd, wylofain a galar. Rhwygwch eich calon, nid eich dillad, a dychwelwch at yr ARGLWYDD eich Duw.' Graslon a thrugarog yw ef, araf i ddigio, a mawr ei ffyddlondeb, ac yn edifar ganddo wneud niwed."

#240

Rhuf. 6:19

(2.) A ydynt yn llawn bwriadu dilyn buchedd newydd: "Fel yr ildiasoch eich cynneddfau corfforol gynt i fod yn gaethion i aflendid ac anghyfraith, a phenrhyddid yn dilyn, felly ildiwch hwy yn awr i fod yn gaethion i gyfiawnder, a bywyd sanctaidd yn dilyn."

#240

1 Pedr 2:7

(3.) A ydynt yn gweld gwerth yn aberth Crist, a'u hangen hwythau ohono: "Y mae ei glod, gan hynny, yn eiddoch chwi, y credinwyr."

#240

Salm 62:1
Phil. 3:8-9
Act. 16:30-31

(4.) A ydynt yn ymorffwys arno ef yn unig am iachawdwriaeth: "Yn wir, yn Nuw yr ymdawela fy enaid; oddi wrtho ef y daw fy ngwaredigaeth."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#240

Dat. 1:5, 6
Ioan 15:18
1 Ioan 4:19

(5.) A ydynt yn dod gan gofio'n ddiolchgar am ei farwolaeth: "I'r hwn sydd yn ein caru ni ac a'n rhyddhaodd ni oddi wrth ein pechodau â'i waed, ac a'n gwnaeth yn urdd frenhinol, yn offeiriaid i Dduw ei Dad, iddo ef y bo'r gogoniant a'r gallu byth bythoedd! Amen."

#240

Mat. 5:23-24
Mat. 5:43-44
1 Pedr 1:22

(6.) A ydynt yn ceisio gwir gariad at pawb: "Carwch eich gelynion, a gweddiwch dros y rhai sy'n eich erlid; felly fe fyddwch yn blant i'ch Tad sydd yn y nefoedd."

#241

Pwy yw'r rhai sy'n dod i Swper yr Arglwydd yn annheilwng?

1 Cor. 10:29

(1.) Y rhai sydd heb geisio cael gwybodaeth ysbrydol i allu dirnad corff yr Arglwydd: "Oherwydd y mae'r sawl sydd yn bwyta ac yn yfed, os nad yw'n dirnad y corff, yn bwyta ac yn yfed barn arno'i hun."

#241

Mat. 5:23-24
Mat. 5:43-44
1 Pedr 1:22

(2.) Y rhai sy'n pwyso ar gyflawnu'r ordinhad yn allanol yn unig, heb geisio cymdeithas â Duw a maeth ysbrydol i'w heneidiau trwy'r ordinhad: "Wrth gwrs, y mae i ymarfer y corff beth gwerth, ond i ymarfer duwioldeb y mae pob gwerth, gan fod ynddo addewid o fywyd yn y byd hwn a'r byd a ddaw."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#241

Mathew
5:23, 24

(3.) Y rhai sy'n byw mewn digofaint heb heddychu, ac yn gwneud camwedd heb ei unioni: "Felly os wyt yn cyflwyno dy offrwm wrth yr allor, ac yno'n cofio bod gan dy frawd rywbeth yn dy erbyn, gad dy offrwm yno o flaen yr allor, a dos ymaith; myn gymod yn gyntaf â'th frawd, ac yna tyrd a chyflwyno dy offrwm."

#241

Hoseia 10:4

(4.) Y rhai sy'n parhau'n gyndyn mewn pechodau sy'n wybyddus iddynt, er iddynt gymryd arnynt gyfamodi â Duw yn eu herbyn: "Llefaru geiriau y maent, a gwneud cyfamod â llwon ffals."

#241

Galatiaid 6:4

(5.) Pawb sy'n gorffwys ar unrhywbeth heblaw Crist yn unig am iachawdwriaeth: "Chwi sy'n ceisio cyfiawnhad trwy gyfraith, y mae eich perthynas â Christ wedi ei thorri; yr ydych wedi syrthio oddi wrth ras."

#242

A gafodd Crist ei ddyrchafu ar ôl ei ddarostyngiad?

Effesiaid 4:10

Do: "Yr un a ddisgynnodd yw'r un a esgynnodd hefyd ymhell uwchlaw'r nefoedd i gyd, i lenwi'r holl greadigaeth."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#243

Beth mae dyrchafiad Crist yn cynnwys?

1 Cor. 15:20
Actau 2:24, 32

(1.) Ei atgyfodiad: "Ond y gwir yw fod Crist wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, yn flaenffrwyth y rhai sydd wedi huno."

#243

Philippiaid 2:9
Hebreaid 2:9
Rhuf. 8:21

(2.) Ei esgyniad i'r nef: "Am hynny tra-dyrchafodd Duw ef, a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw."

#243

Hebreaid 1:3
Salm 110:1
Effesiaid 1:21

(3.) Ei eisteddiad ar ddeheulaw Duw: "Ar ôl iddo gyflawni puredigaeth pechodau, eisteddodd ar ddeheulaw'r Mawrhydi yn yr uchelder."

#243

Actau 17:31
Luc 9:26
Rhuf. 2:16

4.) Ei ddyfodiad i farnu'r byd: "Oblegid gosododd ddiwrnod pryd y bydd yn barnu'r byd mewn cyfiawnder, trwy ŵr a benododd."



#244

Pam atgyfododd Crist?

Rhuf 4:25
1 Cor. 15:17

(1.) I ddangos bod cyfiawnder wedi ei fodloni ganddo ar ran ei bobl: "Cafodd ef ei draddodi i farwolaeth am ein camweddau, a'i gyfodi i'n cyfiawnhau ni."

#244

Hoseia. 13:14
1 Corinthiaid
15:25-28

2.) I ddangos bod ei holl elynion wedi eu gorchfygu: "A waredaf hwy o Sheol? A achubaf hwy rhag angau? O angau, ble mae dy blâu? O Sheol, ble mae dy ddinistr? Cuddiwyd trugaredd oddi wrth fy llygaid."

#244

Salm 16:11
Eseia 53:11

(3.) I dderbyn ei wobr gyfiawn: "Dangosi i mi lwybr bywyd; yn dy bresenoldeb di y mae digonedd o lawenydd, ac yn dy ddeheulaw fwyniant bythol."

#245

Pryd atgyfododd Crist?

1 Corinthiaid
15:3-4

Mathew
28:1-6

Ar ddydd cyntaf yr wythnos, a'r trydydd dydd ar ôl ei farwolaeth: "Oherwydd, yn y lle cyntaf, traddodais i chwi yr hyn a dderbyniais: i Grist farw dros ein pechodau ni, yn ôl yr Ysgrythurau; iddo gael ei gladdu, a'i gyfodi y trydydd dydd."



#246

Pryd esgynnodd Crist i'r nef?

Actau 1:3

Deugain niwrnod ar ôl ei atgyfodiad:
“Dangosodd ei hun hefyd iddynt yn fyw,
wedi ei ddiodefaint, drwy lawer o
arwyddion sicr, gan fod yn weledig iddynt
yn ystod deugain diwrnod a llefaru am
deyrnas Dduw.”

#247

Pwy oedd gyda Christ yn ei esgyniad?

Salm 47:5

Miloedd o angylion, gyda llawen
floedd: “Esgynnodd Duw gyda bloedd,
yr ARGLWYDD gyda sain utgorn.”

#248

Pam esgynnodd Crist i'r nef?

Hebraid
9:24

(1.) I ymddangos gerbron Duw dros ei
bobl: “Oherwydd nid i gysegr o waith llaw,
rhyw lun o'r cysegr gwirioneddol, yr aeth
Crist i mewn, ond i'r nef ei hun, i
ymddangos yn awr gerbron Duw drosom
ni.”

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#248

Heb. 7:25

Rhuf. 8:34

(2.) I eiriol drostynt: “Dyna pam y mae ef hefyd yn gallu achub hyd yr eithaf y rhai sy'n agosáu at Dduw trwyddo ef, gan ei fod yn fyw bob amser i eiriol drostynt.”

#248

Philipiaid 2:9

Hebreaid 2:9

Rhuf. 8:21

(3.) I anfon yr Ysbryd Glân atynt: “Yr wyf fi'n dweud y gwir wrthyhych: y mae'n fuddiol i chwi fy mod i'n mynd ymaith. Oherwydd os nad af, ni ddaw'r Eiriolwr atoch chwi. Ond os af, fe'i hanfonaf ef atoch.”

#248

Ioan 14:2

Dat. 21:2

(4.) I baratoi trigfannau iddynt: “Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau; pe na byddai felly, a fyddwn i wedi dweud wrthyhych fy mod yn mynd i baratoi lle i chwi?”

#248

Ioan 17:5

(5.) I dderbyn gogoniant iddo'i hun: “Yn awr, O Dad, gogonedda di fyfi ger dy fron dy hun â'r gogoniant oedd i mi ger dy fron cyn bod y byd.”

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#249

Beth mae Crist yn gwneud nawr yn ei ddyrchafiad gogoneddus yn y nef?

Salm 110:1

Mae'n eistedd ar ddeheulaw Duw: "Dywedodd yr ARGLWYDD wrth fy Arglwydd: 'Eistedd ar fy neheulaw, nes imi wneud dy elynion yn droedfainc i ti.'"

.....

.....

.....

#250

Beth mae eisteddiad Crist ar ddeheulaw Duw yn dangos?

Hebreaid 4:10

(1.) Ei fod wedi gorffwys o'i waith: "Oherwydd mae pwy bynnag a ddaeth i mewn i'w orffwysfa ef yn gorffwys oddi wrth ei waith, fel y gorffwysodd Duw oddi wrth ei waith yntau."

.....

.....

.....

#250

Hebreaid 1:13

(2.) Uchder ei ddyrchafiad: "Wrth bwy o'r angylion y dywedodd ef erioed: 'Eistedd ar fy neheulaw nes imi osod dy elynion yn droedfainc i'th draed?'"

.....

.....

.....

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#250

Heb. 10:12-14
Heb. 6:20

(3.) Fod ei ogoniant i barhau'n sefydlog: "Ond am hwn, wedi iddo offrymu un aberth dros bechodau am byth, eisteddodd ar ddeheulaw Duw."

#250

Hebreaid 12:28

(4.) Fod ei deyrnas yn ddi-sigl fel efe ei hunan: "Felly, gan ein bod yn derbyn teyrnas ddi-sigl, gadewch inni fod yn ddiolchgar, a thrwy hynny wasanaethu Duw wrth ei fodd, â pharch ac ofn duwiol."

#251

Pryd bydd Crist yn ymddangos fwyaf gogoneddus?

Mathew 19:28
2 Thes. 1:10

Pan ddaw i farnu'r byd yn y dydd olaf, pan "fydd Mab y Dyn yn eistedd ar ei orsedd ogoneddus."

#252

Pa sicrwydd sydd gennym y bydd barn gyffredinol?

Hebreaid 9:27
Preg. 11:9
Preg. 12:14

Mae Gair Duw ei hun yn tystiolaethu hynny: "Gosodwyd i ddynion eu bod i farw un waith, a bod barn yn dilyn hynny."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#253

A fydd cyrff y meirw yn cael eu hatgyfodi ar ddydd y farn?

Byddant

#254

Pa sicrwydd sydd gennym o hynny?

Ioan 5:28- 29

(1.) Mae gair Duw yn tystiolaethu hynny: “Y mae amser yn dod pan fydd pawb sydd yn eu beddau yn clywed ei lais ef ac yn dod allan; bydd y rhai a wnaeth ddaioni yn codi i fywyd, a’r rhai a wnaeth ddrygioni yn codi i gael eu barnu.”

#254

1 Cor. 15:16

(2.) Mae atgyfodiad Crist ei hun yn sicrhau hynny: “Oherwydd os nad yw’r meirw’n cael eu cyfodi, nid yw Crist wedi ei gyfodi chwaith.”

#254

Mat 22:31-32
1 Cor. 6:15-19
Ioan 14:3

(3.) Am fod cyrff y saint yn ogystal a’u heneidiau yng nghyfamod Duw, wedi eu prynu a’u huno â Christ, ac yn demlau i’r Ysbryd Glân: “Ond ynglŷn ag atgyfodiad y meirw, onid ydych wedi darllen y gair a lefarwyd wrthyhych gan Dduw, ‘Myfi, Duw Abraham a Duw Isaac a Duw Jacob ydwyf’? Nid Duw’r meirw yw ef, ond y rhai byw. - Oni wyddoch mai aelodau Crist yw eich cyrff chwi? - Oni wyddoch fod eich corff yn deml i’r Ysbryd Glân sydd ynnoch?”

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#255

A fydd cyrff y meirw yn cael eu hatgyfodi ar ddydd y farn?

Job 19:26-27
1 Cor. 15:38

Yn y cyrff oedd ganddynt yma yn y byd: "Ac wedi i'm croen ddiifa fel hyn, eto [medd Job] o'm cnawd caf weld Duw."

#256

Sut bydd y cyfiawn yn rhagori yn y farn?

1 Thes. 4:16

1.) Bydd y cyfiawn yn codi'n gyntaf yn yr atgyfodiad: "Bydd y meirw yng Nghrist yn atgyfodi yn gyntaf."

#256

Mathew 25:33

(2.) Caiff y cyfiawn eu gosod ar ddeheulaw Crist, ond yr anghyfiawn ar y llaw chwith: "Ac fe esyd y defaid ar ei law dde a'r geifr ar y chwith."

#256

1 Cor. 6:2-3
Daniel 7:22

(3.) Bydd y saint yn barnu'r byd annuwiol

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#257

Sut bydd y saint yn barnu'r byd?

Ioan 12:47-48

(1.) Bydd y gwirioneddau credodd y saint yn barnu'r annuwiolion am iddynt beidio a'u credu: "Bydd y gair hwnnw a leferais i [medd Crist] yn ei farnu yn y dydd olaf."

#257

Mat 12:41-42

Luc 11:32

(2.) Bydd eu bywydau sanctaidd yn barnu bywydau ansactaidd annuwiolion: "Bydd pobl NINEFE yn codi yn y Farn gyda'r genhedlaeth hon ac yn ei chondemnio hi; oherwydd edifarhasant hwy dan genadwri Jona, ac yr ydych chiwi'n gweld yma beth mwy na Jona. Bydd Brenhines y De yn codi yn y Farn gyda'r genhedlaeth hon ac yn ei chondemnio; oherwydd daeth hi o eithafoedd y ddaear i glywed doethineb Solomon, ac yr ydych chiwi'n gweld yma beth mwy na Solomon."

#257

Rhuf. 3:4

(3.) Byddant yn cyfiawnhau farnau uniawn a chywir yr Arglwydd: "Fel y'th geir yn gywir yn dy eiriau, a gorchfygu wrth gael dy farnu."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#257

Dat. 19:1-2

Dat. 15:3-4.

(4). Byddant yn gorfoleddu a llawenhau oherwydd ei farnau ef: "Ar ôl hyn clywais sŵn fel llais uchel tyrfa fawr yn y nef yn dweud: 'Halelwia! Eiddo ein Duw ni y waredigaeth a'r gogoniant a'r gallu, oherwydd gwir a chyfiawn yw ei farnedigaethau ef'... A dywedasant eilwaith: 'Halelwia!'"

#258

Pa fath o gyrff fydd gan y saint yn yr atgyfodiad?

Philipiaid 3:21

(1). Cyrff disglair a gogoneddus: "Bydd ef yn gweddnewid ein corff iselwael ni ac yn ei wneud yn unffurf â'i gorff gogoneddus ef, trwy'r nerth sydd yn ei alluogi i ddwyn pob peth dan ei awdurdod."

#258

1 Cor. 15:42

(2.) Cyrff cwbl berffaith ac anllygredig: "Heuir mewn llygredigaeth, cyfodir mewn anllygredigaeth."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#258

1 Cor. 15:43

(3.) Cyrff cryf, i gyd-fynd â'u heneidiau i beidio blino byth: "Heuir mewn gwendid, cyfodir mewn nerth."

#258

1 Cor. 15:43

(4.) Cyrff ysbyrdol a bywiol: "Yn gorff anianol yr heuir ef, yn gorff ysbyrdol y cyfodir ef."

#259

A fydd Crist yn arddel ei bobl yn y farn?

Luc 12:8
Mathew 10:32

(1.) Bydd, yn gyhoeddus iawn, fel ei frodyr, ei blant, a'i briod: "Rwy'n dweud wrthyich [medd Crist], pwy bynnag a'm harddel i gerbron eraill, bydd Mab y Dyn hefyd yn eu harddel hwy gerbron angylion Duw. - Byddaf finnau hefyd yn eu harddel hwy gerbron fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd."

#259

Dat. 21:4
Dat. 7:17

(2.) Bydd yn eu rhyddhau hwynt yn dragywydd oddi wrth eu holl bechodau a'u holl ddirmyg, ac yn sychu eu dagrau: "Fe sych bob deigryn o'u llygaid hwy, ac ni bydd marwolaeth mwyach, na galar na llefain na phoen."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#260

A fydd dedwyddwch y cyfiawn yn fawr?

Mathew 25:46
Dat. 14:13

Bydd: "Â'r ... rhai cyfiawn [ânt] i fywyd tragwyddol."

#261

Beth fydd dedwyddwch y saint yn y nefoedd yn cynnwys?

1 Ioan 3:2

(1.) Bod yn debyg i'r Arglwydd Iesu yn eu cyrff a'u heneidiau: "Gyfeillion annwyl, yn awr yr ydym yn blant Duw, ac nid amlygwyd eto beth a fyddwn. Yr ydym yn gwybod, pan fydd ef yn ymddangos, y byddwn yn debyg iddo, oherwydd cawn ei weld ef fel y mae."

#261

Mathew 5:8

(2.) Cael golwg ddisglair a pharhaus ar ogoniant Duw: "Gwyn eu byd y rhai pur eu calon, oherwydd cânt hwy weld Duw."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#261

Mathew 25:23
Dat. 3:11

(3.) Mwynhau llawenydd a thangnefedd am byth: “Meddai ei feistr wrtho, ‘Ardderchog, fy ngwas da a ffyddlon; buost yn ffyddlon wrth ofalu am ychydig, fe osodaf lawer yn dy ofal; tyrd i ymuno yn llawenydd dy feistr.’

#261

Dat. 22:3-5

(4.) Hyfrydwch diddiwedd yn gwasanaethu a moliannu Duw a'r Oen: “Ni bydd dim mwyach dan felltith. Yn y ddinas bydd gorsedd Duw a'r Oen, a'i weision yn ei wasanaethu; cânt weld ei wyneb, a bydd ei enw ar eu talcennau. Ni bydd nos mwyach, ac ni bydd arnynt angen na golau lamp na golau haul, oherwydd bydd yr Arglwydd Dduw yn eu goleuo, a byddant hwy'n teyrnasu byth bythoedd.”

#262

Pa fath o gyrff fydd gan yr annuwiolion yn y farn?

Daniel 12:2

Bydd eu cyrff, fel eu heneidiau, yn aflan, yn warthus, a dirmygedig: “Bydd llawer o'r rhai sy'n cysgu yn llwch y ddaear yn deffro, rhai i fywyd tragwyddol, a rhai i waradwydd a dirmyg tragwyddol.”

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#263

Beth fydd trueni'r annuwiolion yn cynnwys?

Marc 8:38

Mat. 10:33

Luc 12:8

(1.) Bydd cywilydd gan y Barnwr hwyt, ac fe gânt eu diarddel yn y farn: "Pwy bynnag fydd â chywilydd ohonof fi ac o'm geiriau yn y genhedlaeth annuwiol a phechadurus hon, bydd ar Fab y Dyn hefyd gywilydd ohonynt hwy, pan ddaw yng ngogoniant ei Dad gyda'r angylion sanctaidd."

.....

.....

#263

Luc 6:25

(2.) Ni bydd unrhyw gysur iddynt o gwbl am byth: "Gwae chwi sydd yn awr yn chwerrhin, oherwydd cewch ofid a dagrau."

.....

.....

#263

Marc 9:44-48

(3.) Bydd euogrwydd a digofaint Duw yn eu cydwybodau, fel pryf heb farw byth, a thân heb ddiffodd.

.....

.....

#263

2 Thes. 1:9

(4.) Y felltith byddant yn dioddef, a'r poenau didrugaredd diddiwedd: "Dyma'r rhai fydd yn dioddef dinistr tragwyddol yn gosb, wedi eu cau allan o bresenoldeb yr Arglwydd ac o ogoniant ei nerth ef."

.....

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#263

Dat 14:11
Eseia 57:21

(5.) Eu hanobaith lwyr o gael rhyddhad nac esmwythdra i'r radd leiaf am byth: "Bydd mwg eu poenedigaeth yn codi byth bythoedd, ac ni bydd gorffwys na dydd na nos."

#264

Beth ddylai ystyried y pethau yma ein dysgu ni?

Geneis 18:25
Job 8:3
Galar. 3:36

(1.) I weld y drwg mawr sydd mewn pechod ei fod yn haeddu'r fath gosb ofnadwy: "Oni wna Barnwr yr holl ddaear farn? - A yw Duw yn gwyrddroi barn? A yw'r Hollalluog yn gwyro cyfiawnder? - Nid yw yr Arglwydd yn gweled yn dda wneuthur cam â gŵr yn ei fater

#264

Sech. 9:12

(2.) I gydnabod trugaredd rhyfeddol Duw'n trefnu noddfa (sef Crist) i ffoi iddi rhag y llid a fydd: "Dychwelwch i'ch amddiffynfa, chwi garcharorion hyderus."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#264

Mathew 16:26

Salm 49:8

(3.) I wneud tynnedd ein heneidiau y peth pwysicaf tra byddom yn y byd: "Pa elw a gaiff rhywun os ennill yr holl fyd a fforffedu ei fywyd? Neu beth a rydd rhywun yn gyfnewid am ei fywyd?"

#264

Daniel 12:3

(4.) I weithio'n ddyfal am iachawdwriaeth pechaduriaid: "Disgleiria'r deallus fel y ffurfafen, a'r rhai sydd wedi troi llawer at gyfiawnder, byddant fel y sêr yn oes oesoedd."

#265

Pryd bydd dydd barn?

Mathew
13:40-42

Yn niwedd y byd hwn: "Yn union fel y cesglir yr efrau a'u llosgi yn y tân, felly y bydd yn niwedd amser. Bydd Mab y Dyn yn anfon ei angylion, a byddant yn casglu allan o'i deyrnas ef bopeth sy'n peri tramgwydd, a'r rhai sy'n gwneud anghyfraith, a byddant yn eu taflu i'r ffwrnais danllyd; bydd yno wylo a rhincian dannedd."

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#266

Pam ordeiniodd Duw farn gyffredinol?

Mathew 16:27

Mathew 24:30

(1.) Er mwyn dangos Crist, a ddirmygwyd yn y byd, yn ogoneddus yng ngŵydd pawb: “Oherwydd y mae Mab y Dyn ar ddyfod yng ngogoniant ei Dad gyda’i angylion, ac yna fe dâl i bob un yn ôl ei ymddygiad.”

#266

2 Thes. 1:10

(2.) “Daw, yn y Dydd hwnnw, i’w ogoneddu gan ei saint ac i fod yn destun rhyfeddod gan bawb a gredodd.”

#266

Preg 3:16-17

Rhuf. 2:6

2 Cor. 5:10

(3.) I ddangos bod rhagluniaeth Duw i bawb yn gyfiawn: “Hefyd gwelais dan yr haul fod drygioni wedi cymryd lle barn a chyfiawnder. Ond dywedais wrthyf fy hun, ‘Bydd Duw yn barnu’r cyfiawn a’r drygionus, oherwydd y mae wedi trefnu amser i bob gorchwyl a gwaith.’”

#266

Rhufeiniaid 2:5

(4.) I ddangos bod ei farn yn uniawn: “Wrth ddilyn ystyfnigrwydd dy galon ddiedifar, yr wyt [ddyn] yn casglu i ti dy hunan stôr o ddigofaint yn Nydd digofaint, Dydd datguddio barn gyfiawn Duw.”

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#267

Ym mha fodd daw Crist i farn?

Dat. 20:11
Dat. 1:7

(1.) Mewn modd mawreddog iawn: “Gwelais orsedd fawr wen a’r Un oedd yn eistedd arni, hwnnw y ffoesai’r ddaear a’r nef o’i ŵydd a’u aadael heb le.”

#267

Titus 2:13

(2.) Mewn modd gogoneddus iawn: “A disgwyl cyflawni’r gobaith gwynfydedig yn ymddangosiad gogoniant ein Duw mawr a’n Gwaredwr, Iesu Grist.”

#267

1 Thes. 5:3
Mathew 24:44

(3.) Yn sydyn: “Pan fydd pobl yn dweud, ‘Dyma dangnefedd a diogelwch’, dyna’r pryd y daw dinistr disymwth ar eu gwarthaf fel gwewyr esgor ar wraig feichiog, ac ni fydd dim dianc iddynt.’”



#268

Pwy ddaw gyda Christ i'r farn?

Sech. 14:5

(1.) Ei holl saint: “Yna bydd yr ARLWYDD fy Nuw yn dod, a'i holl rai sanctaidd gydag ef.”

#268

2 Thes 1:7-8

(2.) Yr angylion: “A rhoi esmwythâd i chwi sy'n cael eich gorthrymu, ac i ninnau hefyd, pan ddatguddir yr Arglwydd Iesu o'r nef gyda'i angylion nerthol. Fe ddaw mewn fflamau tân, gan ddial ar y rhai nad ydynt yn adnabod Duw a'r rhai nad ydynt yn ufuddhau i Efengyl ein Harglwydd Iesu.”

#269

Pam penodwyd Crist i fod yn farnwr?

Ioan 5:22, 27

Actau 17:31

Am ei fod yn perthyn i'w swydd gyfryngol i farnu yn ogystal â phrynu ei bobl: “Nid yw'r Tad chwaith yn barnu neb, ond y mae wedi rhoi pob hawl i farnu i'r Mab. - Rhoddodd iddo hefyd awdurdod i weinyddu barn, am mai Mab y Dyn yw ef.”

HYFFORDDWR THOMAS CHARLES



#270

Pwy fydd yn cael eu barnu?

Jwdas 6

(1.) Yr angylion a syrthiodd: “Cofiwch yr angylion hefyd, y rhai a wrthododd gadw o fewn terfynau eu llywodraeth ac a gefnodd ar eu trigfan eu hunain, iddo ef eu cadw hwy yn y tywyllwch mewn cadwynau tragwyddol, i arôs barn y Dydd mawr.”

#270

2 Cor. 5:10

(2.) Holl ddynoliaeth: “Oherwydd rhaid i bawb ohonom ymddangos gerbron brawdle Crist, er mwyn i bob un dderbyn ei dâl yn ôl ei weithredoedd yn y corff, ai da ai drwg.”

#271

Wrth ba nodau bydd Crist yn gwahaniaethu rhwng y cyfiawn a'r anghyfiawn yn y farn?

Mathew
25:35-36

(1.) Bydd y duwiol yn wybyddus wrth eu ffydd a'u ffrwythau: “Oherwydd [medd Crist wrthynt] bûm yn newynog a rhoesoch fwyd imi, bûm yn sychedig a rhoesoch ddiod imi, bûm yn ddieithr a chymerasoch fi i'ch cartref; bûm yn noeth a rhoesoch ddillad amdanaf, bûm yn glaf ac ymwelsoch â mi, bûm yng ngharchar a daethoch ataf.”



Y 10 Gorchymyn

I. Na fydded i ti dduwiau eraill ger fy mron i.

II. Na wna i ti ddelw gerfiedig, na llun dim a' r sydd yn y nefoedd uchod, nac a' r sydd yn y ddaear isod, nac a' r sydd yn y dwfr tan y ddaear. Nac ymgryma iddynt, ac na wasanaetha hwynt: oblegid myfi yr Arglwydd dy Dduw wyf Dduw eiddigus; yn ymweled ag anwiredd y tadau ar y plant, hyd y drydedd a' r bedwaredd genhedlaeth o' r rhai a'm casânt; ac yn gwneuthur trugaredd i filoedd o' r rhai a'm carant, ac a gadwant fy ngorchymynion.

III. Na chymer enw yr Arglwydd dy Dduw yn ofer; canys nid dieuog gan yr Arglwydd yr hwn a gymero ei enw ef yn ofer.

IV. Cofia y dydd Saboth, i'w sancteiddio ef. Chwe diwrnod y gweithi, ac y gwnei dy holl waith. Ond y seithfed dydd yw Saboth yr Arglwydd dy Dduw: na wna ynddo ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th ferch, na'th wasanaethwr, na'th wasanaethferch, na'th anifail, na'th ddieithr-ddyn a fyddo o fewn dy byrth. Oherwydd mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd y nefoedd a' r ddaear, y môr, a' r hyn oll sydd ynddynt; ac a orffwysodd y seithfed dydd: am hynny y bendithiodd yr Arglwydd y dydd Saboth, ac a'i sancteiddiodd ef.

V. Anrhydedda dy dad a'th fam; fel yr estyner dy ddyddiau ar y ddaear, yr hon y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi i ti.

VI. Na ladd.

VII. Na wna odineb.

VIII. Na ladrata.

IX. Na ddwg gam dystiolaeth yn erbyn dy gymydog.

X. Na chwennych dŷ dy gymydog, na chwennych wraig dy gymydog, na'i wasanaethwr, na'i wasanaethferch, na'i ych, na'i asyn, na dim a' r sydd eiddo dy gymydog



Sawl gorchymyn sydd yn y gyfraith?

Deg

Pa rai ydynt?

Y rhai hynny a lefarodd Duw yn yr Ugeinfed Bennod o Exodus, gan ddywedyd, “Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw, yr hwn a’th ddug di allan o wlad yr Aifft, o dŷ y caethiwed.”

Beth yw eich dyled tuag at Dduw?

Fy nyled tuag at Dduw yw, credu ynddo, ei ofni, a’i garu â’ m holl galon, â’ m holl feddwl, â’ m holl enaid, ac â’ m holl nerth; ei addoli ef, diolch iddo, rhoddi fy holl ymddiried ynddo, galw arno, anrhydeddu ei enw sanctaidd ef, a’i air, a’i wasanaethu yn gywir holl ddyddiau fy mywyd.

Beth yw eich dyled tuag at eich cymydog?

Fy nyled tu ag at fy nghymydog yw, ei garu fel fi fy hun, a gwneud i bob dyn megis y chwenychwn iddo wneuthur i minnau. Caru ohonof, anrhydeddu, a chymorth fy nhad a’ m mam. Anrhydeddu ac ufuddhau i’ r Brenin a’ i swyddogion. Ymddarostwng i’ m holl lywiawdwyr, dysgawdwyr, bugeiliaid ysbrydol ac athrawon. Ymddwyn ohonof yn ostyngedig, gan barchu pawb o’ m gwell. Na wnelwyf niwed i neb ar air na gweithred. Bod yn gywir ac yn uniawn ym mhob peth a wnelwyf. Na bo na chas na dygasedd yn fy nghalon i neb. Cadw ohonof fy nwyllaw rhag chwilenna a lladrata, a’ m tafod rhag dywedyd celwydd, cabl eiriau, na drwg absen. Cadw fy nghorff mewn cymedroldeb, sobrwydd, a diweirdeb. Na chybyddwyf, ac na ddeisyfwyf dda na golud neb arall; eithr dysgu a llafurio yn gywir i geisio ennill fy mywyd, ac i wneuthur a ddylwyf ym mha ryw fuchedd bynnag y rhyngo bodd Dduw fy ngalw.

Gwelwch i mi amcanu
gwneuthur y llyfryn hwn
mor fuddiol ag y medrwn
ac mi allaf yn hy
dystiolaethu, nad oes
gennyf un amcan arall yn ei
argraffu, yn fy ngolwg, ond
lles a budd eneidiau
anfarwol. Dymunaf ar i
Dduw pob gras lwyddo fy
amcan yn hyn, er helaethu
gwir wybodaeth a
thragwyddol fendithio'ch
eneidiau. Yr ydwyf mewn
cariad,

Bala, Ionawr 28, 1789.

Eich annheilwng was tros
Grist,

T. CHARLES